

ECO'R WYDDFA

RHIF 40

MEDI 1979

Pris: 12c

Cludo Plant I'r Ysgol

CYNGHORYDD PAT LARSEN
YN AMLINELLU'R FFEITHIAU DIWEDDARAF

Yn sgîl gorchymyn y Llywodraeth yn Llundain ar i'r Cyngorau lleol dorri ar eu gwariant bydd cynilo ar gludo plant i'r ysgolion.

Siaradais a phleidleisiais yn y Cyngor yn erbyn y toriadau hyn a fydd yn effeithio mor ddrwg ar yr ardaloedd gwledig. O Fedi ymlaen bydd plant ysgolion cynradd yn cael eu cludo i'r ysgol am ddim os digwydd iddynt fyw 2 filltir neu ragor o'r ysgol, a chluir plant ysgolion uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol. Effeithia hyn yn ddirfawr ar fro Eco'r Wyddfa.

PENISARWAUN — Tua dwy filltir sydd o Benisarwaun i Ysgol Brynrefail ac o'r herwydd bydd yn rhaid i'r plant dalu am eu cludo'n ôl a blaen i'r Ysgol. Gall hyn gostio £56 y flwyddyn am un plentyn ac os oes gennych 2 o blant yn Ysgol Brynrefail yna byddwch yn dlotach o £112 y flwyddyn.

CLWT-Y-BONT — Nid oes amheuaeth bod Clwt-y-bont dros 3 milltir o Ysgol Brynrefail, serch hyn mae'r Awdurdod am i'r plant dalu am eu cludo. Felly gofynnaf i rieni plant Clwt-y-bont ysgrifennu i'r Swyddfa Addysg yn dweud wrth y Cyfarwyddwr bod Ysgol Brynrefail dros dair milltir o'r pentref ac yn ôl cyfraith gwlad mae'n ofynnol i'r Awdurdod gludo'r plant i'r Ysgol yn rhad ac am ddim.

DINORWIG — Yna fe fydd problemau mawr yn wynebu rhieni sydd â'u plant yn Ysgol Gynradd Gynfi gan na fydd cludiant am ddim iddynt nac ychwaith wasanaeth Crosville i gyrraedd yr Ysgol erbyn 9.00 am. Mae rhywun yn arswydo wrth feddwl am blant bach yn gorfod cerdded o Ddinorwig i lawr Gallt y Foel i fynd i'w hysgol, ac wrth feddwl am y tywydd garw maent yn ei gael yma. Bydd y plant sydd yn byw ym mhen pella'r pentref, ger y chwarel yn cael eu cludo, ond bydd yn rhaid i'r rhai o'r pen arall (ochr Deiniolen) gerdded neu gael eu cludo gan eu rhieni.

BRYNREFAIL — Yma mae un ysgol i blant o dan 7 oed, yna cant eu tywys i Ysgol Cwm-y-glo (Llanrug ar un amser). Gan nad yw Cwm-y-glo yn ddwy filltir i ffwrdd mae'r Awdurdod yn gwrthod eu cludo yno. Mae hyn

yn peri gofid i drigolion Brynrefail gan nad oes gwasanaeth gan Crosville yn mynd o Frynrefail i Gwm-y-glo erbyn naw o'r gloch y bore.

Gwelwch yr anawsterau a gwyd o doriadau a ddaeth, fel y dywedais, yn sgîl gorchymyn y Llywodraeth.

Erfyniaf arnoch i anfon i mewn at yr Awdurdod (y Swyddfa Addysg, Caernarfon) i gwyno ac i ailadrodd yr anawsterau hyn.

'Ryd' i eisoes wedi trafod y mater gyda'r Swyddfa Addysg ac wedi anfon llythyr at y Cyfarwyddwr Addysg. Gofynnaf hefyd i Brifathrawon ysgolion sydd yn cael eu heffeithio gan y toriadau i alw cyfarfod o Lywodraethwyr a Rheolwyr yr Ysgolion yn gynnar y tymor nesaf i drafod y broblem hon.

* * * *

Dylid ychwanegu y bydd y sefyllfa'n debyg yng Ngheunant. Mae 25 o blant yn mynd i ysgol Gynradd Llanrug. Chwilio am gludiant preifat neu gerdded yw'r dewis i'r rhai hynny sy'n byw o fewn dwy filltir i'r ysgol. Nid yw'r ail ddewis yn debygol o blesio rhieni sy'n poeni am ddiogelwch eu plant. Mae'r ffordd rhwng Ceunant a Llanrug yn gul iawn mewn mannau ac yn gwbl ddi-balmant ar ei hyd. Bydd pryder rhieni yn cael ei ddwysau yn ystod boreau tywyll misoedd y gaeaf.

Mae nifer o oblygiadau ynghlwm wrth dorri gwasanaeth cludo plant i'r ysgol, oblygiadau nad ydyw'n ymddangos iddynt gael eu hystyried a'u trafod yn llawn gan swyddogion a chynghorwyr, cyn penderfynu arnynt.

Beth am yr ystyriaethau cymdeithasol, er enghraifft? Tybed a welwn deuluoedd yn symud o'r rhannau diarffordd i'r pentrefi yn agosach at yr ysgolion? Nid oes angen proffwyd

Enillwyr yn y Genedlaethol



Peter Lloyd Jones yn codi Cwpan Her Ifor Jarvis fel arwydd o fuddugoliaeth Seindorf Arian Llanrug yng nghystadleuaeth Dosbarth C, ddydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod. Pwy ddaeth yn ail iddynt, medde chi? Wel neb llai na seindorf Deiniolen! Da iawn chi, chwythwyr bro'r Eco.

Nid oedd yr aelodau canlynol yn bresennol pan dynnwyd y llun uchod: Glyn Hughes, Iwan Williams, Emyr Tomos, Neville Tomos, Colin Lloyd Jones, Russell Mc Mahon.

(Llun gwreiddiol y Caernarfon & Denbigh Herald.)



Emyr Jones o Gaernarfon, gynt o'r Waunfawr ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth am wobwr Beatrice Grenfell — sef traethawd yn rhoi braslun o hanes Chwarel Dinorwig. Ef yw awdur y llyfr 'Canrif y Chwarelwr'. Edrychwn ymlaen at weld erthygl ganddo yn yr Eco yn y dyfodol agos.



Ann Llwyd Elis Jones o Lanrug a ddaeth yn gyntaf am ysgrifennu drama i'w chyflwyno gan actorion profiadol i gynulleidfaoedd o blant ysgolion cynradd. Mae Ann yn ferch i'r diweddar ddramodydd Huw Lloyd Edwards.

LLONGYFARCHIADAU BAWB

Yn sgîl yr Eisteddfod Genedlaethol daeth lluo o wobrau i fro yr Eco a phleser o'r mwyaf yw cael nodi hynny a dangos lluniau'r enillwyr yn y papur. Nid oedd yn bosib, er inni wneud pob ymdrech, i gynnwys lluniau pob un a enillodd wobwr yn y rhifyn hwn. (Mae'n amlwg bod nifer ohonoch wedi penderfynu cael seibiant oddi cartref ar ôl miri'r Eisteddfod.)

Ein bwriad yw cynnwys lluniau'r canlynol yn y rhifyn nesa a bodloni am y tro, ar eu henwi yn unig, ac wrth gwrs, eu llongyfarch yn wresog: Parti Dawns Werin Ysgol Gwaungynfi (cyntaf), Seindorf Deiniolen (ail, cystadleuaeth dosbarth C), E. Williams, Ysgol Brynrefail (ail, Gymnasteg Olympaidd), Grŵp Dawns Greadigol Ysgol Brynrefail (ail), Mr Hefin Jones, Waunfawr (ail, unawd tenor agored), Tim St Joan, Deiniolen (ail, cystadleuaeth Ambiwlans, Tarian Isca) a John Alan Roberts, Groeslon, gynt o Lanberis (trydydd — gwobr Beatrice Grenfell).

i weld beth fyddai effaith hyn, yn y pen-draw, ar ardaloedd fel Dinorwig a Cheunant. Ai ystyr cyd-ymffurfio â'r drefn economaidd yw diboblogi cefn gwlad a lladd y cymdeithasau sy'n bodoli yma? Beth mewn difri mae llywodraeth Dorïaidd yn Llundain, sy'n penderfynu ar gwtogi a thoriadau yn wybod am ein anghenion a'n problemau ni ym mro Eco'r Wyddfa?

Cawn ein hatgoffa o hyd ac o hyd pa mor ddrwg yw'r sefyllfa economaidd yn gyffredinol a bod toriadau a chwtogi ar wario cyhoeddus yn angenrheidiol fel rhan o'r feddyginiaeth. Ond mae lle cryf i amau hynny, yn enwedig yn yr achos hwn. Beth yw'r pris pan mae lles plant a lles cymdeithas arbennig yn y fantol?

(Gweler hefyd 'I Rieni' ar dudalen 15)

ECO'R WYDDFA

RHIF 40 MEDI 1979

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Nant Peris

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFF-
REDINOL:** Twrog Jones, 23 Glan-
ffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon
3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisrwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant. (Wauwfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llan-
rug (C'fon 4669)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

TREFNYDD GWERTHIANT: Ian
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (Caer-
narfon 3776).

FRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones,
58 Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs. M. Evans, "Lloc", Llanrug.
(C'fon 3 227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth,
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones,
Bryn Tegid (Wauwfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gwledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Wau-
fawr 321)

CWM-Y-GLO: Mr. Dafydd Price,
Ty Capel, Cwm-y-glo. (Llanberis 550)

DEINIOLLEN: Meirion Jones, Minafon
Clwt-y-bont. (Llanberis 452).

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humph-
reys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

TREFNYDD BUSNES: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug.

Rhifyn Nesaf
27ain Medi

Deunydd i Law
19eg Medi

LLYTHYRAU

"O CHWI O YCHYDIG FFYDD"

Annwyl Syr,
Dymunwn ateb llythyr a
gyhoeddwyd yn rhifyn
Gorffennaf o Eco'r Wyddfa oddi
wrth Richard Roberts, 'Gwyndy',
Llanrug, ynglyn â pholisi
dwyieithog Pwyllgor y Carnifal,
Llanrug.

'Rydym yn falch mai yn
Gymraeg yr ysgrifennwyd y
llythyr, gobeithiwn nad yw y
Saeson yn ein mysg yn gwybod
am ei gynnwys.

Hoffwn atgoffa y rhai hynny
sy'n condemnio'n polisi o ddwy-
ieithrwydd ein bod yn dibynnu
ar ewyllys dda holl drigolion y fro
er ffyniant a llwyddiant y
Carnifal, ac rydym yn ddyledus
i'r Saeson sy'n byw yn ein mysg
am eu cefnogaeth.

Aiff rhan helaeth o'r elw i dalu
am ginio Nadolig i oedolion y fro,
fe arlwyir gwledd o'r radd flaenaf,
ac mae'n gyfrwng rhagorol i ddod
a'r Cymry a'r Saeson at ei gilydd o
leia' unwaith yn y flwyddyn, ac
edrychir ymlaen yn fawr, gan
bawb sydd a diddordeb, at y
digwyddiad hapus yma.

Cogyddes yr Ysgol Gynradd -
Mrs Joan Williams, Saesnes o
ganolbarth Lloegr a fu'n gyfrifol
am arloesi'r trefniadau yma yn yr
ysgol, a bu'n gyfrifol am goginio'r
bwyd trwy gydol y blynyddoedd.
A gawn ni ofyn ai rhesymol
fuasai gwrthod y gymwynas a'r
gefnogaeth yma am yr unig
reswm nad yw Mrs Williams yn
rhugl yn yr iaith Gymraeg? A
ydym hefyd i wrthod anrhegion a
chyfraniadau gwirfoddol Saeson
sy' mewn busnes yn ein plith?
Onid rhyfedd na fuasai Richard
Roberts, ac eraill sydd o'r un
feddwl yn cymryd diddordeb
ymarferol yng ngweithgareddau'r
pentref, yn hytrach nag
ysgrifennu llythyr i gondemnio
y rhai sydd yn barod i weithio.
Pe bai'n barod i roddi ei
gefnogaeth, cawsai agoriad llygaid
ar unwaith, gan fod y Saeson yr
un mor hael a'r Cymry lleol.

Cymry dwy-ieithog yw holl
aelodau Pwyllgor y Carnifal, a
gwyddom fod moesgarwch a
goddefgarwch yn llawer rhagorach
cyfryngau i hybu ein treftadaeth,
ein iaith a'n traddodiad, na
gweithgareddau militaraidd.
'Rydym yn ffodus ein bod yn
byw mewn gwlad rydd, lle mae
rhyddid i ddatgan barn mewn
unrhyw iaith. Mae'n amlwg fod
Richard Roberts o'r farn os na
siaredir yr iaith Gymraeg yn unig,
ar bob achlysur fod tranc yr iaith
mewn golwg; ffolineb o'r mwya'
- o chwi o ychydig ffydd.

'Rydym yn ffyddiog, tra bydd
Cymry Cymraeg rhesymol yn
yn ein broydd Cymraeg, na ddaw

perygl i'n hiaith. Onid yw'n amser
i Richard Roberts dyfu i fyny?
Gobeithiwn y bydd yn sylweddoli
na fydd polisi un-iaith Gymraeg
yn ei wneud, o reidrwydd yn well
Cymro.

Ysgrifennwyd y llythyr yma, ar
ran Pwyllgor y Carnifal, Llanrug.

Annwyl Olygydd,

Pleser yw cael copi o 'Eco'r
Wyddfa' i'w ddarllen bob mis a
byddwn yn mwynhau'r erthyglau
amrywiol am yr ardal.

Er hyn roeddem yn synnu fod
un darllenwr wedi ysgrifennu yn y
rhifyn diwethaf i awgrymu na
ddylid cynnal na hysbysu dim yn
ein hardal yn ddwy-ieithog.

Hefyd sylwn am gartwn yn
hysbysebu'r 'Lolfa'. Gwawdio'r
Sais wna'r cartwn speitlyd hwn.
Mae gwyr neu wragedd llawer
ohonom yn Saeson, ac maent hwy
a'u plant yn gwneud eu gorau i
ddeall a dysgu'r iaith Gymraeg ac
yn mynychu a chymryd
diddordeb yn y pethau a gynhelir
yn ein pentref a'r ardal.
Awgrymwn felly na ddylid brifo
teimladau yn ein cartrefi drwy
brinito pethau creulon am neb.

Mae ein iaith yn bwysig ond
mae 'boneddigeiddrwydd' a
'charedigrwydd' yn bwysig hefyd.

Yn gywir,
I.L. Glaister
M.L. Wildig

At y Golygydd

Annwyl Syr,
Sylwais ar ddarluniau gaeafol o
lyn Llanberis a'r cylch yn Eco'r
Wyddfa. Dyma i chi lun a
dynnwyd ym mis Mai, ac 'rwyf yn
meddwl mai'r flwyddyn oedd
1955, ond nid wyf yn sicr iawn.
'Roedd y 'Steddfod yn Pwllheli
yr haf hwnnw, a chawsom
dywydd anarferol o boeth.



Yng ngorsaf y Clogwyn y mae y
llun yma wedi ei dynnu, ac 'roedd
y gŵr ar y dde yn ymgeisydd

Rhyddfrydol (nid wyf yn cofio ei
enw), ac 'roedd yn mynd i'r
gwesty ar ben yr Wyddfa i siarad
a'r rhai a oedd yn gwasanaethu
yno. Yn y canol mae Mrs Margaret
Hughes o Gaernarfon
(cyfreithiwr) ac yr wyf finnau yn
y canol. Ni fedrai y trên fynd
ymhellach na Chlogwyn, gan fod
cymaint o eira, a bu'n rhaid i ni
gerdded i fyny i'r top. Mr Lennon
oedd yn gofalu am orsaf y
Clogwyn, a dywedodd wrthyf, na
fedrwn i ddim cerdded o'r
Clogwyn i fyny. "Os medr y bobl
yma", medda finna "Mi wnaif inna
hefyd", a mi wnes, ond anghofia'i
byth mo'r diwrnod hwnnw.

Yr wyf yn mwynhau darllen
Eco'r Wyddfa yn fawr iawn a
dymunaf pob llwyddiant i'r papur
yn y dyfodol.

Mi dybiwn i mai darlun o adeg
streic fawr Chwael Dinorwic
ydyw darlun 'Beth yw'r Achlysur'
ond wn i ddim i sicrwydd,
cofiwch, ond clywais fy nhad yn
sôn llawer iawn am y streic
honno.

Yr eiddoch yn gywir
E. Hughes
Bryn Hyfryd
Groeslon

Annwyl Olygydd,

Dymunaf drwy gyfrwng eich papur
ddiolch o galon i bawb a fu o gymorth
i mi yn ystod fy mlwyddyn fel
ysgrifennydd Carnifal Llanberis yn
enwedig i fy nghyd-swyddogion a'r
pwyllgor gwaith.

Dymunaf hefyd, ar ran y
swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith
ddiolch yn fawr iawn i bawb (heb enwi
neb) a fu o gymorth amhrisiadwy i ni
drefnu a chynhyrchu wythnos Carnifal
Llanberis ac i'w gwneud hi yn un mor
lwyddiannus.

Diolch hefyd i drigolion Llanberis
a'r cylch a phawb o'r tu allan am eich
cefnogaeth dryw fel pob amser. Mae
ffigurau faint o arian a gasgwlyd i
gronfa y Genedlaethol yng
Nghaernarfon eleni yn dangos
cefnogaeth a dyfalbarhad yr ardal.

Gobeithiwn y gwnaethoch fwynhau
eich hunain ac y cafoch eich plesio ar
ein rhaglen amrywiol.

Gobeithio y cawn edrych ymlaen am
fwy o amrywiaeth i bob oed yn y
dyfodol ac y cawn llawer blwyddyn
lwyddiannus yn hen 'Bentra Bach
Llanber'.

Diolch yn fawr iawn.

Yr eiddoch yn gywir,
Alwyn Thomas (Ysg)
Foelas
19 Stryd Newton
Llanberis

**WIL
a
VAL GUY
TREFLYN
STORES
BETHEL**

Bwydydd, Melysion, Teganau a
Diodydd ac yn awr dewis o
Ddillad Plant

Y FELINHELI 670 237

DEINIOLEN



Yng Nghapel Tabernacl Deiniolen dydd Sadwrn, Gorffennaf 7 priodwyd Dyfed Rowlands, unig fab Mrs Rowlands a'r diweddar Mr John Rowlands, 11 Bryn Ffynnon, Star, Gaerwen, a Miss Rowena Jones merch Mr a Mrs Owen Jones, 42 Pentre Helen. Gweinyddwyd gan y Parch Albert Wyn Jones a'r organyddes oedd Mrs Helen Lewis, ffrind y teulu. Rhoddwyd y briodferch i ffrwd gan ei thad a gweinyddwyd arni fel morynion gan ei chwaer Mrs Wendy Edwards a Carol a Rowena Rowlands, chwiorydd y priodfab. Y gwas oedd Arfon Jones, ffrind y priodfab, a'r ystlyswyr oedd Owen Glyn, brawd y briodferch a Raymond Harvey.

Yr oedd 70 o wahoddedigion yn y Wledd yng Ngwesty'r Castell ym Mangor a disgwyd gyda'r nos. A threuliwyd y melrawd yn moduro. Rhoddwyd pedolau lwcus gan Kevin a Sian, Linda Glenda, Tracey a Tony a Marion Wyn, Karen a Kelvin, Carol a Rowena bach.

— Dydd Sadwrn, Gorffennaf 14 yn Libanus (B) Clwt-y-bont, gyda'r Parch I.L.I. Williams, BA., Bangor yn gweinyddu, priodwyd Carol merch Mr a Mrs W. Williams, 10 Tai Marian, Deiniolen a Kevin fab Mr a Mrs M.G. Jones, Bryn Carrog, Rhostryfan. Wrth yr organ yr oedd Miss Mair Rees Jones. Y gwas priodas oedd Mr Paul Jones, brawd y priodfab. Y morynion oedd Sian Llywelyn Jones, Sioned Thomas, Bethan Goldsworthy a Pamela a Debra Jones. Mae Kevin yn gweithio yng Nglyn Rhonwy, Llanberis, a Carol wedi gorffen ei chwrw athrawes yn y Coleg Normal, Bangor. Maent yn ymgartrefu yn 17 Tan-yr-Allt, Rhostryfan.

Dymuna Carol a Kevin ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, ffrindiau a chymdogion Deiniolen a Rhostryfan, am y lluo anrhegion gwerthfawr a phob dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch o galon i chwi i gyd.

LIBANUS (B) — Cynhelir cyrddau pregethu yn Eglwys Libanus, Clwt y Bont, Medi 9. Disgwylir y Parch Raymond Williams, BA., BD, Caerdydd fel pregethwr gwadd yr wyl. Trefn yr oedfaon: Bore — 10 o'r gloch, Prawn — 2 o'r gloch, a'r nos — 5 o'r gloch.

NEWYDDION Y SEINDORF — Yn gyntaf a gawn i ddatgan llongyfarchiadau calonnog i'r seindorf am ddod yn ail yn yr Eisteddfod yng Nghaernarfon. Canmolwyd y band yn uchel iawn gan y beirniad Mr Derek Garside ac mae'r feirniadaeth i'w gweld i fod yn ddi-wall, ail hefyd a ddaeth i bedwarawd y Seindorf yn yr Eisteddfod ac mae ein llongyfarchion yr un morgalonnog iddynt hwythau, ac hefyd yr un modd i Mr Eric Foster hyfforddwr y band.

'Does dim diwedd ar weithgar-eddau'r seindorf yma. Nos Sul, Awst 12 gwelwyd hwy ar lwyfan y pafiliwn yn cyfeilio yn y Gymanfa Ganu fawr, nos Lun y 13, 'roeddynt yn arwain peldroedwyr o bob gwlad trwy Fangor ac yna diddorwyd y rhain yng Nghae Farrar gan y band lle y cawsant gymeradwyaeth fawr.

Yn Llandudno gwelwyd y band nos Sadwrn y 18 yn diddori ymwelwyr — ac yn wir felly eu hanes ymwelwyr ydychaf. Mawr yw ein diolch am wasanaeth diflunedig y seindorf yma sydd yn barod iawn i gynorthwyo pob achos.

YR EISTEDDFOD — Mewn cyngerdd gan Seindorf Genedlaethol Cymru ym Mhafiliwn yr Eisteddfod nos Sadwrn Awst 4, cafodd Mr W.M. Hughes, Rhiwen wledd annisgwyl o glywed y Seindorf yn chwarae ymdeithgan o'i waith ei hun, sef 'Elidir' a chael ei annog gan yr Arfynydd Mr D.V. Hendy i sefyll a derbyn cymeradwyaeth y gynulleidfa am gyfansoddi gwaith mor rhagorol.

Yn yr Eisteddfod hefyd 'roedd gan yr 'Eglwys yng Nghymru' babell. Ynddi 'roedd arddangosfa ar 'Galwedigaeth' gydag annerchiad pwrpasol gan y Canon R. Glyndwr Williams. Ar brynghawn Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod fe wnaed y te gan Mrs H. Tate, Mrs Griffith, Maes Gwylfa, a Mrs N. Price, Llys y Gwynt.

DIOLCH — Dymuna Elfyn Wyn Morris 10 Porth-y-Gogledd ddiolch o galon i bawb am y rhoddion a'r cardiau a dderbyniodd ar ei benblwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Gwladys Jones, Ty Capel Libanus, Clwt-y-bont ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da iddi yn ystod ei harhosiad yn yr Ysbyty yn Lerpwl yn ddiweddar.

Mae Mrs Beryl Griffith, 5 Maes Gwylfa, yn datgan ei diolch i'w chymdogion a'i chyfeillion am eu caredigrwydd tuag ati yn ei phrofedigaeth o golli ei merch Glenys Roberts, 33 Llys Bedwyr, Bangor.

Dymuna plant a theulu y diweddar Mrs Ciss Williams, 70 Pentre Helen, Deiniolen ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a'u cyfeillion am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

ANRHYDEDD — Yn rhestr Anrhydeddau Penblwydd y Frenhines, Mehefin 16, 1979, dyfarnwyd yr Anrhydded O.B.E. i Mr Trefor Owen Ellis, mab Mr Owen Ellis a'r diweddar Mrs Blodwen Ellis, gynt o 7 Victoria Terrace, Deiniolen. Fel hyn y darllen y dyfyniad — 'Am ei wasanaeth i'r Diwydiant Siwgr yn Guyana'.

Derbyniodd Mr Ellis ei addysg yn Ysgol Gwaun Gynfi, ac Ysgol Uwchradd Brynrefail, ac wedyn yng ngholeg Aberystwyth, lle y graddiodd yn B.Sc., ac ar ôl hynny yn M.Sc., ARIC.

Ar bod ar gyfnod yn Jamaica a'r Dominican Republic, ym Mawrth ymunodd â Chwmni Planhigfa Siwgr Bookers yn Guyana fel Cyfarwyddwr Ymchwil Amaethyddol. Penodwyd ef yn Gadeirydd Cwmni Bookers, ac yn Brif gynrychiolydd y Cwmni yn

Rhagfyr 1972. Parhaodd yn gadeirydd hyd nes y cymerwyd y Cwmni drosodd gan Lywodraeth Guyana ym Mai 1976, ac ar ôl hynny gyda chydwelediad Bookers, penodwyd ef yn Arbenigwr yn y Gymdeithas Gydwladol fel Prif Ymgynghorydd i'r Gweinidog Amaeth yn Guyana.

Bwriada Mr a Mrs T.O. Ellis ymddeol o Guyana yn Rhagfyr 1979, ac wedyn bydd yn cymryd swydd rhan-amser gydag Adran Amaethyddol Byd—Eang Bookers yn Llundain, a chario allan wasanaeth cynghorol i wledydd eraill.

PLAID CYMRU — Nos Wener, Gorffennaf 20, aeth aelodau'r gangen ac eraill ar daith ddirgel wedi'i threfnu gan Mr Gwyn Parry a Mr Ifan Bryn Roberts.

Pen y daith oedd Glan Traeth, Môn, lle cafwyd noson o ddawnsio gwerin.

Enillydd prif wobwr y raffl oedd Mr Arfon Jones, Stryd Newydd.

Y BADAU ACHUB — Yn ddiweddar fe gynhaliwyd Dydd Baneri at y Badau Achub. Y cyfanswm yn Neiniolen a'r cylch oedd £50.46. Mrs Phyllis Jones a Mrs N. Price £5.57. Miss Anwen Thorman Jones a Miss Wendy Jones £3.77. Mrs D. Davies (Y Llythyrdy) £9.04, Mrs E. Hughes £2.17, Mrs C. Price £8.06, Mrs N. Morris £9.44. Y trefnydd lleol oedd Mrs C. Price. Diolch i bawb am eu hymdrech!



Joan Grindley, 3 Tai Glyndwr, Clwt-y-bont a John Morris, Rhianfa, Clwt-y-bont a briodwyd ddydd Sadwrn Awst 4.

Dymuna Mr a Mrs John Morris, Crown, Deiniolen, ddiolch i bawb am yr anrhegion gwerthfawr a gawsant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Y CARNIFAL — Dymuna Pwyllgor Brenhines y Carnifal ddiolch i bawb am eu cymorth, a'u cefnogaeth i'r plant, ac am wneud popath yn llwyddiannus. Diolch yn arbennig i Sian Gibson, Helen Lewis, Eifion Hughes a Mr John Evans a hefyd i Mr Jacob James am ei rodd tuag at y bwyd.

Hefyd, fe hoffai'r pwyllgor wneud sylw o'r ffaith nad arian o gyllid y Carnifal a ddefnyddiwyd at wisgoedd y frenhines a'r gweinyddesau.

Bu'r Pwyllgor yn brysur trwy'i gilydd, yn codi arian drwy gynnal Disco, boreau coffi ac amryw o weithgareddau eraill.

Diolch o galon i bawb, gan obeithio nad adawyd neb allan.

Dymuna Rhian, Brenhines Carnifal Deiniolen, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y lluo anrhegion, arian a'r dymuniadau da a dderbyniodd. Diolch arbennig i Bwyllgor Brenhines y Carnifal am eu gwaith graenus a diflino i godi arian i dalu am y dilladau hardd sydd gennym. Diolch yn fawr. Dymuna Debbie Thomas, 35 Rhydfadog, hefyd ddolch i bawb am yr anrhegion a chardiau a dderbyniodd pan yn weinyddes i'r Frenhines Carnifal.

Geiriau Can Brenhines Carnifal yw'r rhain gan Mr John Evans, (Johnny'r Iard).

Beth sydd yn Neiniolen heddiw, Pam fod pawb mor llon eu cân? Dewis maent Frenhines newydd Gyda'i gosgordd hardd a glân.

Rhian fwyn mewn gwisg urddasol, A'i gosgorddllu yn gytun O dan ofal doeth Eifiona Debbie ac Eiriona gun.

Sharon a Llywela dirion Hefyd Gwyn a Delwen Haf Darren Parry draw o'r Terrace Pawb a'i wisg yn hardd a braf. I'n brenhines yng Ngwaen Gynfi Rhoddwn fanllef fawr Hwre!! Boed ei thymor yn llwyddiannus O dan wenau mwyn y ne.

Rhaid wrth bwyllgor i hyrwyddo Gweithgareddau hapus ddydd Diolch am y lluo benwydd Gyda'u doniau mwyn a rhydd Jennie Wyn a Joyce a Gloria, Rhian, Hilda ac Yvonne Jennie, Miriam, Marge ac Ella Pwyllgor doeth y gylchwyll hon.

Bendith arni fwyn Frenhines yn ei lifrai gwyn a glân Llawen wyl ym Neiniolen Mwyn a hyfryd fo eich cân. Eled sŵn yr hardd goroni Dros hen erwau llwyd ein bro, Dyma ddydd ein hardd Frenhines Dydd a erys ar ei cho'.

DIOLCH — Dymuna Sian ac Eifion o Ddeiniolen a Llanberis, ddiolch i bawb am yr anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas, hefyd am y lluo cardiau a'u dymuniadau da. Diolch yn fawr i bawb ym mhobman.

Gweler y llun ar dudalen 13



Brenhines Carnifal Deiniolen gyda'i gosgordd.

(Rhagor o newyddion Deiniolen ar dudalen 13)

PENISARWAUN

DIOLCH. — Dymuna Tegid Roberts, Arwel, ddiolch am y nifer fawr o gardiau a dderbyniodd gan gyfeillion yn cydymdeimlo ag ef yn ei brofedigaeth o golli ei dad, y diweddwr Griffith Jones Roberts, Penmorfa, Porthmadog, fis yn ôl.

Hefyd dymuna Mrs Betty Evans, Glyn Arthur ddiolch o galon i bawb a fu yn ymweld â hi tra yn yr ysbyty ac adref yn ddiweddwr. Diolch am y cardiau, llythyrau ac anrhegion, a diolch arbennig i Mrs Myfanwy Parry, Tawelfa, a hefyd i staff ysbyty Dewi Sant a Minffordd Bangor am eu gofal cariadus.

SYMUD CARTREFI — Dymunwn yn dda i Mr a Mrs W. Jones a Gwynfor yn eu cartref newydd, Ty'n 'Rardd; i Mr a Mrs Paterson a'r plant yn rhif 1, Bryntirion ac i Mrs Arvonja Jones sydd wedi symud at ei mam, Hyderwn yn fawr iddynt gael dedwyddwch a bodlonrwydd yn eu cartrefi newydd.

CYDYMDEIMLWN — Â Mrs Glenys Williams a'i theulu yn eu hiraeth a'u profedigaeth o golli ei thad.

Mae Glenys am i ni ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod salwch ei thad ac ar ei farwolaeth. Cafodd lu o gardiau cydymdeimlad a gan nad oes gobaith iddi ateb y cwbl yn bersonol mae hi'n anfon ei diolchiadau trwy'r papur hwn.

EISTEDDFODOL — Erbyn hyn mae'r Eisteddfod wedi bod a 'does dim ar ôl ond y pafiliwn mawr a phebyll gweigion ar y Maes. Serch hynny, erys cynnyrch, nawws atgofion a chyfeillgarwch yr Eisteddfod. Ac felly cyn i ni anghofio'n llwyr ar ran y pentref, diolchwn i Miss Anwen Jones Meillionydd am ei gwaith caboledig fel cyflwynydd y flodeued; i'r Ysgol Gynradd am eu gwaith ym Mhasiant y Plant; i'r pwyllgor lleol am gasglu at yr Eisteddfod gan fynd heibio'r targed. Yn bennaf diolchwn i chi a gyfrannodd mor hael i gynnal ein Prifwyl.

PENBLWYDD — Llongyfarchiadau i chwi Mrs Thomas, 2 Tai Madog ar ddathlu eich penblwydd yn bedwar ugain yn ddiweddwr, a hefyd Miss A. Williams, 1 Tai Madog ar gyrraedd ei 87 oed beth amser yn ôl.

MARWOLAETH — Mae'n ddrwg gennym gofnodi marwolaeth un o'n pentrefwyr, sef Mr Evan Owen, Waun Hywel. Bu Ifan yn wael ers amser, ond nid oedd yn un am achwyn ynglŷn â'i iechyd. Am flynyddoedd lawer bu'n dod a llefrith i drigolion Penisarwaun ac ni fyddai tywydd na dim yn ei rwystro.

Cydymdeimlwn â'i weddw a'i blant.

CARNIFAL — Mae'r pwyllgor am anfon diolchiadau i bawb a fu o gymorth i wneud yr Wyl yn llwyddiant. Diolchwn yn arbennig i Mr W.H. Griffith am y Cae, i Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion, Mr Gwilym Owen Tanycoed am Cae King, i Mr a Mrs Elfyn Thomas am feirniadu'r gwisgoedd, i Mr a Mrs Hoskinson, Pant Afon am eu rhodd hael, i Seindorf Arian Llanrug, Majorettes, Llanrug, i Selwyn Griffith am fod yn ganolwr, i'r Eglwys am y byrddau a phawb o'r pentrefwyr a weithiodd i'wneud yr Wyl yn llwyddiant.

EGLWYS SANTES HELEN

UNDEB Y MAMAU — Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Gorffennaf 2. Cymerwyd y gwasanaeth gan Mrs B. Mowll, ac wedyn cafwyd noson ddiffr dan ei gofal hi. Rhoddwyd y te gan Mrs R. Jones a Mrs G. Lewis.

CYDYMDEIMLWN — â Mr Tegid Roberts, Arwel (Warden y Bobl) yn ei brofedigaeth sydyn o golli ei dad ym Mhorthmadog.

PABELL YR EGLWYS — Diolch i Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion a Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt am eu cymorth ym mhabeil yr Eglwys yn yr Eisteddfod. Yr oeddynt yno yn gweithio'n galed ond mewn llawn hwyllau. Hefyd i Mrs O.C. Roberts am ei rhodd tuag at y bwyd.

LLONGYFARCHWN — Mr a Mrs I. Hughes, Cae Hywel am fod yn nain a thaid unwaith eto.

YSBYTY — Dymunwn wellhad buan i Mr Elfyn Griffith ar ôl ei anffawd yn ei waith; bu yn yr ysbyty am ychydig wedi hyn.

Mae Dilwyn John Williams, 23 Bryn Tirion yntau wedi bod yn yr ysbyty ond wedi gwella erbyn hyn.

Gwell hefyd yw Mrs Hughes, Fflat King Arthur.



Un o 'Smash Hits' Carnifal Penisarwaun!

TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU — i Mr Dylan Bryn Jones, 2 Tai Tan-y-Coed ar ei llwyddiant yn y Coleg Technegol Bangor ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf yno.

Bu'n llwyddiannus yn y papur cyffredinol, y papur mecanyddol a'r papur ffabrigied a weldio. Maes ei astudiaeth ydoedd Crefft Peirianeg Sylfaenol, rhan 1.

Hefyd i Mrs Nan Roberts, Llety Llwyd ar ei hapwyntiad yn athrawes yn Ysgol Feithrin Llanrug, hefyd i Mrs Roberta Griffith, merch - yng nghyfraith Mr a Mrs Roberts Griffith, 2 Tai Trefor a apwyntiwyd yn Weinyddes yn yr un ysgol. Dymuniadau da'r ardal i'r ddwy ac i'r plant dan eu gofal.

CYDYMDEIMLWN — â Mrs Dilys Williams, Bryn Hyfryd yn y brofedigaeth sydyn a'i goddiweddodd ar Orffennaf 24 pan fu farw ei mam Mrs Mary Williams, Blaen Ffridd, Waunfawr.

CROESO — adre i Mrs Dorothy Williams, Pant y Bryngwyn a fu'n wael yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Erbyn hyn mae Mrs Williams yn gwella'n foddhaol.

Hefyd, croeso adre i Mrs Jennie Hughes, Oerddwr, wedi ei harhosiad yn Ysbyty Môn ac Arfon. Da ei gweld hithau wedi gwella.

COFION — Ein cofion a'n dymuniadau gorau i Mrs Nellie Wyn Thomas, 1 Tai Bryngwyn sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor.

AGOR CANOLFAN YMWELWYR NEWYDD GER LLANBERIS

Pnawn dydd Mawrth, Goffennaf 24, agorwyd Canolfan Ymwelwyr newydd yn hen Ysbyty'r Chwarel ar lan Llyn Padarn, Llanberis, gan y Cynghorwr J.E. Tudor, Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd.

Cadeiriwyd y Serermoni Agor gan y Parch Richard Jones, Y Felinheli, cadeirydd Panel Rheoli Parc Gwledig Padarn a gyflwynodd Mr. Clifford Chadwick, Swyddog Cynllunio'r Sir, y bu ei Adran yn gyfrifol am adnewyddu'r hen Ysbyty Chwarel.



O'r chwith i'r dde:
Miss Katrina Mullingham o'r Swyddfa Gynllunio, yn dweud hanes Ysbyty'r Chwarel wrth y Cynghorydd J.E.

Tudor, Mr Clifford Chadwick, y Parch Richard Jones a'r Mri Hugh Jones, Peter Southern a John Nicholas.

SIOE GWNINGOD

Yn dilyn llwyddiant y sioe gwningod a gynhaliwyd yn Llanrug y llynedd disgwyli'r nifer helaeth o gystadleuwyr yn y sioe gwningod eleni.

Unwaith eto cynhelir y sioe yn hen ysgol Glanmoelyn ac mae'r trefniadau yn nwylo Mr a Mrs Gwilym Williams, Ddôl Fach, Cwm-y-glo. Os ydych eisiau manylion ynglŷn â chystadlu cysylltwch â Mr neu Mrs Williams (Ffôn: Llanberis 851).

Mae'r sioe i'w chynnal ar bnawn Sadwrn, Medi 15 a bydd y drysau ar agor am 1.30 pm. Pris mynediad yw 20c i oedolion a 10c i bensiynwyr a phlant. Bydd te, brechdanau a theisennau ar gael yno hefyd.

Fel y tystia'r gefnogaeth a gafodd y sioe y llynedd mae'r sioe hon yn ennyn diddordeb eang. Os ydych am bnawn Sadwrn difyr a rhad cofiwch am y sioe. Y gobaith yw y datblygir hi'n sioe flynyddol a fydd yn cynnwys cystadlaethau anifeiliaid, blodau a llysiau o bob math. Dymuna Gwilym Williams ddiolch am yr holl gefnogaeth a gafodd hyd yma.

PASANT — Bu tri o blant y fro yn cymryd rhan yn y pasiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Vaughan Llewelyn Hughes, Rallt Deg, yn cymryd rhan Joseff, a Manon Llwyd Evans, a Bethan Lewis Parry yn canu yn y côr

Bethel

COFION — Mae'r ardal yn gyrru cofion i Edward Hughes, 17 Bro Rhos sy'n wael ei iechyd ers cryn amser bellach.

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



CWM-Y-GLO

AIL-GYCHWYN — Wedi bwlch o rai blynyddoedd bwriedir all-gychwyn dosbarth dan nawdd Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghwm-y-glo (Mae hysbysiad o ddosbarthiadau'r fro yn y rhifyn hwn o'r Eco, gan y trefnydd - Dr Eirwen Gwynn). Bu yma ddosbarthiadau llwyrchus a diddorol am amser maith, ac mae'n bleser estyn gwahoddiad i unrhyw un a hoffai ymuno. Os am fwy o fanylion ffoniwch Padarn 288.

GENI — Llongyfachion i Mr a Mrs Francis Hughes, 17 Dolafon, ar enedigaeith merch fach - Bethan Wyn - chwaer i Nia.

GWAELEDD — Yn ystod y ddau fis diwethaf, bu llawer o dan rhyw anhwylder neu'i gilydd ac hefyd bu llawer yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddynt oll.

PEL-DROED — Nos Fercher y 18 o Orffennaf, bu Cinio Gwobrwyo'r tîm o dan bymtheg oed. Mwynhawyd noson eithriadol yng Ngwesty'r Llety, Caeathro. Mr Dafydd Parry — y dyfarnwr, o Lanberis oedd yn cyflwyno'r tlysau i'r bechgyn — ac fel drwy gydol y tymor, fe ymgymerodd â'i dasg yn arbennig o dda. Diolch iddo am ei barodrwydd bob amser.

Gwobrwywyd y canlynol: Aelodau newydd i'r tîm — Dino Bellini, Michael Roberts a Dafydd Gregory yn derbyn tîws pob un. Sgoriwr uchaf y tymor — Kevin Wyn Owen. Cydradd ail am chwaraewr y tymor — Andrew Flint a Neil Rowlands. Nigel Orritt a anrhegwyd fel 'Chwaraewr y tymor'.

Eleni drachefn, yr ydym yn ddiolchgar i'r rheolwr Mr Gwilym Williams, am ei waith diflino, ac hefyd y rhodd o'r holl dlysau i'r bechgyn.

Diolch hefyd i Mr a Mrs Bellini, Eithin Duon, am eu rhodd o dalu'r costau teithio ar gyfer y noson.

BEDDGELERT v CWM-Y-GLO — (dan ddeuddeg oed) Beddgelert 1, Cwm-y-glo 6. Gwyn Morris 3, Robin Jones 1, Edwin Thomas 1, a Terry Williams 1, yn rhwydo dros Cwm.

CARNIFAL — Yn ystod yr wythnos gyntaf o Orffennaf cynhaliwyd yr wythnos Garnifal yn y pentref.

Cafwyd amser difyr ac fe fu y fenter yn llwyddiannus ym mhob ystyr. Bu'r canlyniadau eisoes yn y papur wythnosol a mantolen arian ar ddangos yn y siopau. Dymuna aelodau'r pwyllgor ddiolch i bawb a fu'n cefnogi eu hymdrechion.

GWIBDAITH — Aeth Trip Ysgol Sul Sant Gabriel i'r Rhyl eleni yn ôl eu harfer a bendithiwyd y diwrnod gyda thywydd braf eithriadol a deallwn i bawb fwynhau eu hunain.

RHOEDDION — Mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Sant Gabriel cyflwynwyd a chysegrwyd Cwpan a Phlât Cymun er cof am Miss G. Rosveare, Tanrhiw. Y Parch Ganon Alun Jones y Deon Gwlad oedd yn gweinyddu'r cyflwyno a'r cysegru a gweinyddwyd yr Offeren gan y Rheithor. Yr organydd oedd Miss C. Hughes. Yr oedd amryw o gyfeillion y diweddar Miss Rosveare yn bresennol.

CYMDEITHAS DDRAMA LLANBERIS

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ffestri Preswylfa am 7 o'r gloch, nos Fercher, Medi 12. Apelir ar i'r aelodau fod yn brydlon.

cymdogion, a ffrindiau am y rhodd deilwng, a'r anrhegion drudfawr, ynghyd â'r cardiau niferus a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch yn arbennig am y cydweithrediad hapus, a'r caredigrwydd a dderbyniwyd yn ystod ei gyrfa fel athrawes yn Ninorwig a Deiniolen. Diolch yn fawr.

YSBYTY — Dymunir gwellhad buan i Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Môn ac Arfon yn derbyn llaw feddyginiaeth.

Drwg deall, hefyd fod Mr Eurwyn Fleming, 1 Maes Eilian wedi gorfod dychwelyd am yr ail waith i Ysbyty Sant Thomas, Llundain. Gwellhad buan fo iddo ef.

Anfonir cofion cynnes at Miss Annie Jones, 6 Bro Elidir, Dinorwig, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon.

TOCYNNAU BYSIAU — Gwerthfawrogi yn fawr gan y trigolion y trefniant a wnaed eleni am y tro cyntaf i ddosbarthu 'Tocynnau Bysiau' i'r Pensiynwyr a'r Methedig yn y Ganolfan. Cyn hyn rhaid oedd mynd i'w cyrchu i Ddeiniolen.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr Kelvin Fleming, 1 Maes Eilian, ar ei lwyddiant yn ei arholiadau terfynol yng Ngholeg y Normal, Bangor, i'w gymhwyso fel athro. Dymunir yn dda iddo yn y dyfodol.

Hefyd, i Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, ar ddod yn ail dan 19 oed ar chwarae'r piano, yn Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru, yng Nghaernarfon, a hefyd ar ei llwyddiant gyda'i haroliadau yn Ysgol Brynrefail.

Y BADAU ACHUB — Yn ddiweddar fe gynhaliwyd dydd baneri at y Badau Achub. Y Casglydd yn Ninorwig oedd Mr R.E. Williams a chasglwyd £11.87. Diolch i bawb am eu haelioni.

DIOLCH

Ein diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau:

£1 Di-enw, Clwt y Bont.
£1 Mrs J. Williams, 14 Tai Caradog Deiniolen.
£1 Huw Jones, Gwastadnant, Nant Peris.
£10 Di-enw Llanrug.
£1.00 E. Griffiths, Bryn Llwyd, Llanberis.
£1 John Parry, Peterborough Canada.
£3 Hefina W. Marshalsay, Rhyl.
£3 Mrs R.G. Roberts, Thermopolis, Wyoming.
£1 Mrs Jane Griffiths, Macpelah House, Deiniolen.
£1 Mr a Mrs D. Jones, 2 View Terrace, Deiniolen.
£1 Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Clwt-y-bont.
£1 Mr O.M. Jones, 1 Pentre Helen, Deiniolen.
£1 Di-enw, Bethel.
£1 Mrs Betty Evans, Glyn Arthur, Penisarwaun.

AR WERTH

Mothercare


CONVERTIBLE PRAM

Lliw Denim

Cyflwr Da lawn

Waunfawr 587

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

E. & E.M.
GREEN

SIOP
GRON

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES

O'R/ EISTEDDFOD



Dyma lun Annette Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth piano. Llongyfarchiadau iddi ac hefyd am gyfello i gôr plant y pasiant 'Dyma Feibl'.

CEUNANT

O'R YSBYTY — Da gennym ddweud bod Mr Butterfield, Bryn Awalon wedi dychwelyd adref o'r ysbyty. Dymunwn iddo adferiad llwyr a buan.

LLONGYFARCHIADAU — Balch oeddem o ddeall fod y rhai a ganlyn o'r pentref wedi bod yn llwyddiannus yn yr arholiadau TAG a TAU. Susan a Caroline Jones, Tanhafodlas, Dafydd Jones, Gwelfor, Joanah Barnes, Ty Newydd, Deallwn fod Dafydd wedi ei dderbyn i Goleg y CEBG ym Manceinion i gael ei hyfforddi'n beiriannydd. Dymunwn iddo pob llwyddiant yn ystod y pedair blynedd o hyfforddiant.

STORFA

Mace
O.R. & M.
PARRY

Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael.

Perchnogion cyfeillgar.

Wavell
Roberts
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

DINORWIG

GENI — Williams. Mehefin 10 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor i Ann a Gwilym, ganed merch, (Nicola Proudley). Llauer o ddiolch i bawb am eu caredigrwydd, (Chwael Goch, Fachwen, Deiniolen).

DIOLCH — Dymuna teulu'r diweddar Mrs E. Winn, (Uwch Sardis gynt) ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a chwaer. Gwerthfawrogi y cardiau, a'r geiriau cydymdeimlad, a'r rhoddion ariannol a dderbyniwyd. Anfonwyd £36.60 i Gronfa'r "Multiple Sclerosis Society" adran Gwynedd er cof amdani.

CYDYMDEIMLIR — â Mr a Mrs H. Parminter, Brookfield, Dinorwig, a'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth o golli chwaer Mrs Alice Parminter yn ddiweddar, sef Mrs E. Winn, Uwch Sardis gynt.

Cydymdeimlir hefyd â Mr a Mrs Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, a'r cysylltiadau teuluol ym marw brawd Mr Gwilym Davies yn ddiweddar, sef Mr Henry Davies, Penybont, Deiniolen.

O'R YSBYTY — 'Croesewir Miss Marian Jones, 7 Bro Elidir, adref wedi arhosiad yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Dymunir gwellhad buan iddi.

DIOLCH — Dymuna Mr Eirwyn Fleming, 1 Maes Eilian, ddiolch i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Dewi Sant Thomas, Llundain. Diolch am yr holl gardiau, llythyrau, ac anrhegion a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty.

Hefyd, dymuna Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian, ddiolch yn fawr iawn i Staff Ysgol Gwaun Gynfi, Staff y gegin, rhieni'r plant, perthnasau,

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ap Glaslyn

Ym Meddgelert y ganwyd y Parch John Owen (Ap Glaslyn) yn y flwyddyn 1856. Ef oedd mab hynaf y bardd a'r llenor 'Glaslyn' ac Elin ei briod.

Yr oedd John Jones, arweinydd côr Beddgelert, yn daid iddo, sef tad ei fam, a'r hynafiaethydd William Jones (Bleddyn) yn frawd i'w fam. Felly yr oedd o ochr ei fam yn gallu canu. Hi oedd y soprano buraf yn yr holl gylch, a byddai sôn amdani ym mhob man.

GLASLYN

Yr oedd Glaslyn ei dad yn perthyn i deulu urddasol iawn, a'i enw yn hysbys trwy Gymru. Yr oedd Glaslyn yn gyfaill mynwesol i Galedfryn, Glasynys, Dr Edwards Y Bala, Y Parch E. Morgan Y Dyffryn, Tegidon, Ceiriog, Y Parch D. Lloyd Jones ac Owen M Edwards. Yr oedd gan Glaslyn allu eithriadol ar y llwyfan. Bu'n athro yn yr Ysgol Sul ym Mheniel hefyd.

Anerchai yn y Seiadau 'Fel doethur' yn goeth a huawdl, a gallai wneud hynny ar unrhyw fater y mynnai ymdrin ag ef. Pan oedd yn llanc meddai ar lais tenor soniarus iawn, a medrai ganu offeryn chwyth. Yr oedd Glaslyn yn ŵr hardd o gorff hefyd.

AP GLASLYN

Yr oedd hynodrwydd mawr yn John Owen, sef Ap Glaslyn, pan oedd yn blentyn. Lle bynnag y byddai, dilynid ef gan haid o blant yn gwrando arno yn canu ac adrodd straeon.

Pan oedd yn unarddeg oed ef oedd un o'r rhai cyntaf i ennill tystysgrif am basio yr hen nodiant o dan arholiad manwl Ieuan Gwyllt. Yr oedd hyn yn 1867.

Meddai ar feddwl effro ac yr oedd yn gyflym am ddysgu yn yr Ysgol Frutanaidd. Bu am amser yn gwasanaethu fel disgybl-athro o dan yr hen athro medrus, George Thomas.

Pan oedd tua ugain oed ymbriododd ag Elizabeth (Leisa chwedl yntau) merch i William a Jane Trevor, Voty'r Awen, Clegir. Yr oedd William Trevor yn flaenor gyda'r M.C. yn y Clegir Llanberis. Ac yn Voty'r Awen, ym mynydd-dir Eryri y buont yn cartrefu y rhan fwyaf o'u gyrfa gan fagu eu plant i ganu cân a nyddu odlau.

Ganwyd iddynt saith o blant, pump o enethod a dau fachgen.

Prysur ymddatblygodd ei alluoedd llenyddol a cherddorol. Yn 1877 cafodd ei urddo yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon â'r enw Ap Glaslyn. Yr oedd yr arholiad o dan law Ceiriog, Iolo Trefaldwyn, Ioan Arfon ac Estyn. Yn yr un Eisteddfod daeth Ap Glaslyn yn ail ar y fugeilgerdd. Tegfelyn oedd y cyntaf a Cheiriog oedd y beririad.

Y TLWS AUR

Ar ôl hynny enillodd Ap Glaslyn

lawer o wobrwyon teilwng am draethodau, prydestau a chaneuon.



Ond ei brif orchest oedd llwyddo i gael y tlws aur ysbennnydd a gwerthfawr am gyfansoddi rheingerdd 'Gwenor Ddôl', yn Eisteddfod Llandudno 1887 dan feirniadaeth Cadfan a Llawdden. Yn gerfiedig ar y tlws y mae darlun o riain mewn cae bedw.

Meddai ar awen naturiol a lluniai ganeuon swynol a byw. Ceir pedair canig ganddo 'Ngherddi Eryri' sef 'Dros y Maesgwyn' (1889), 'Atgofion Mebyd ym Meddgelert' (1889), 'Relwe'r Wyddfa' (1896) ac 'Ymson am yr hen amser ym Meddgelert' (1909).

Cyfansoddodd gân pan oedd yn ddeunaw oed o dan y teitl 'Y Gwallt Gwyn'.

YN Y CHWAREL

Bu Ap Glaslyn yn gweithio yn Chwarel Y Cook, yn Clegir, Llanberis, yn y wal nesaf ond un i'm tad. Cyfansoddent ganeuon ac englynion ac amryw yn rhoi ambell i bwt i mewn.

Dyma fyr-a-thoddaid o waith Ap Glaslyn:

GWADIAD PETR

Tair gwaith gwnaeth Petr i'w gŵydd - yn y llys

Wadu'n llwfr ei Arglwydd: Tyngai, rhegai, yn rhwydd - nad oedd euog

Ond wele'r ceiliog yn edliw'r celwydd.

Ar briodas ei ferch Elizabeth (neu Lleucu fel yr hoffai ei thad ei

galw) â Mr R. Jones Parry, Tithebarn Street, Caernarfon, cyfansoddodd Ap Glaslyn bennill fel hyn:

Pwy arall fel Jones Parry - a hawliai
Law a chalon Lleucu:
Gyda chan a thân a thŷ - neb, neb

A fu ateb y ferch o'r Foty.

Cofiai fy nhad y diwrnod yn y Chwarel pan gyfansoddodd Ap Glaslyn y gan 'Ta Ta' a Dafydd Roberts a'm tad yn helpu. "Mae isio un pennill eto" meddai

Dafydd Roberts. Ar amrantiad cyfansoddodd Ap Glaslyn y pedwerydd pennill o'r gân fel hyn:

Mi welaf fachgen arall â baner yn ei law
Yn dringo Alpau uchel, brawychus,
clod, gerllaw:
Gan adael ei gyfoedion yn wirion ar i lawr

Tra yntau'n hyf mewn hyder cryf
Wrth ddringo'r mynydd mawr.

Mi ganodd Ap Glaslyn lawer ar y gân hon.

I Barhau.

BYD NATUR

Un o'r cyfranwyr cyson yn yr Eco yw Mr Harry Jones, Tŷ Uchaf, Ceunant. Gweler ei lun isod gyda'i wraig Mrs Jennie Jones ar achlysur ei benblwydd y mis diwethaf.

Tua 20 mlynedd yn ôl gyrrodd Harry Jones gwestiwn ar ffurf pennill gocosaidd at banel y rhaglen BBC boblogaidd 'Byd Natur' yn dilyn trafodaeth yn y chwarel. Dyma'r cwestiwn: 'Beth sy'n gyfrifol am y cynnau a welir ar yr ochr fewnol o goesau blaen ac ôl ceffylau?' Dyma'r pennill ac mae enw un o'r hogia - John Roberts (Saer) Waunfawr yn y pennill.

"Bu John y Saer a minnau
Yn dadlau am rhai oriau
Pam fod ceffyl, a rhyw gorn
Yn tyfu rhwng ei goesau
A minnau ar rhyw antur
Anfonais i 'Byd Natur'
Ac yn disgwyl rym ein dau
Am ateb tros yr awyr."

MAENT YN DISGWYL BYTH!
Rhy anodd i'r panel? Tybed.

oes un o ddarlennwyr yr Eco yn gwybod yr ateb?



AR WERTH

8 Tai Gweledfa, Deiniolen

Tŷ bychan hwylus mewn rhes heb fod ymhell o ganol y pentref. Dwy ystafell i lawr a thair i fyny yn cynnwys bathrwm. Angen cegin newydd yn y cefn.

Ffonier: Bethesda 600423

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN: LLANBERIS 277

Perchennog

Aneurny

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



LLANBERIS

DYWEDDIO — Llongyfarchion i June Wynne, merch Mr a Mrs G. Jones, 88 Maes Padarn, ar ei dywedd iad â David Emlyn, mab Mr a Mrs C. Jones, 14 Rhes Elfed, Bethesda.

CERDDORIAETH — Llongyfarchion i Delyth Parry, Llys Orwig ac Owain Griffith, Llwyn Piod ar eu llwyddiant mewn arholiadau clarinet.

ARHOLIADAU — Llongyfarchiadau i Bryn Jones, Dol Elidir, Gwilym Roberts, Maes Padarn, Nia Bryan Jones Llwyn Eilian ar eu llwyddiant yn arholiadau'r Lefel 'A'.

DECHRAU GYRFA — Eleni bydd y rhai canlynol yn gorffen eu dyddiau coleg yn llwyddiannus ac yn dechrau gyrfa newydd ar hyd a lled y wlad.

Eleri Parry, Glan y Don — mae hi wedi llwyddo i gael gradd B.Ed. yng Ngholeg Caerdydd. Bryn Owen, Stryd Siallot, wedi cael swydd i ddysgu yn Llangefni. Bethan Bryan Jones, Llwyn Eilian — mae hi wedi cael swydd fel 'Speech Therapist' gydag Awdurdod Iechyd Dyfed. Sharon Owen, Maes Padarn — hithau ar ol gorffen yn Y Coleg Normal, wedi mynd i weithio tu draw i Baris yn Ffrainc.

GWAELEDD — Dymuniadau gorau am wellhad buan i'r rhai a ganlyn sydd yn yr ysbyty, neu wedi dychwelyd oddi yno: — Mrs Lola Sellars, Stryd Goodman, Mrs Gwawr Owen, Stryd Newton, Mrs Lorraine Williams, 'Rallt Goch', Mrs M. Thomas, Fflat 75 Maes Padarn, Mr Arthur Evans, Cynlas, Mr Albert Griffiths, Glanffrwd, Miss Marian Davies, Rhes Efrog, Mrs Eryl Williams, Tan y Bryn.

PRIODASAU — Dymunir pob hapusrwydd i'r cyplau ifanc yma a briodwyd yn ystod y misoedd diwethaf.

Yn Eglwys Sant Padarn, priodwyd Wendy Roberts, merch Mr a Mrs Ifan Roberts, Rhes Olgra a Michael Williams, Hull.

Yng Nghapel Coch, ar Awst 4, priodwyd Raymond, mab Mr a Mrs T.J. Roberts, Dol Elidir, a Maureen, merch Mr a Mrs J. Guy, Dol Elidir.

Yng Nghaernarfon ar Awst 18 priodwyd Ruth, merch Mr a Mrs H. Davies, Hafod Lydan a Stanley Wyn, mab Mrs Elsa Williams, Stryd Turner.

Yng nghapel Nant Padarn, priodwyd Carolyn, unig ferch i Mr a Mrs G. Williams, Stryd Siallot a Wyn, mab Mr a Mrs Evans, Caernarfon.

DIOLCH — Dymuna Eleri Williams, Rallt Goch, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion oll am eu dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn un-ar-hugain oed.

Hefyd, dymuna Alfie a Heulwen (Siop Wilson), Cynnant Lodge, (Waunfawr) ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeith eu mab, Gerallt Arfon.

Dymuniad Bernard a Rhiannon Evans, Stryd Newton, hefyd yw diolch o galon i bawb am yr anrhegion a gafodd Gillian pan yn Weinyddes i Maxine, brenhines y Carnifal.

Diolch yn fawr iawn.

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — Pleser yw llongyfarch plant yr ardal ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod. Yn unigol — Rhian Owen, Stryd Siallot ar ddod yn ail ar unawd dan 16 oed.

Yna plant Côr Miss Williams ar ddod yn bedwerydd yng nghystadleuaeth i gorau dan 16 oed.

Hefyd rhaid rhoi canmoliaeith uchel iawn i blant ysgol Dolbadarn ar eu perfformiad gwyb — 'Y Dilyw' ym mhasiant y plant. Cafodd y rhai na fu yn yr Eisteddfod wledd pan y dangoswyd eu cyfraniad ar 'Bigion yr Wythnos' gan Alun Evans.

Da iawn blant Llanber, yn dal i gadw enw da Llanber ar y map.

MARWOLAETHAU — Yn ystod yr wythnosau a aeth heibio collwyd amryw o'r ardalwyr. Estynnwn i'w cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd oll yn eu galar.

Bu farw Mrs Nora Parry, priod Mr John Parry, 85 Maes Padarn, ym mlodau ei dyddiau pan ond yn 49 oed. Ni fu erioed yn gryf iawn ei hiechyd, ond 'r oedd ganddi wen siriol bob amser, ac yn ymdrechu i wella o'r afiechyd blin heb rwnach na chwyno. Collad i bawb a'i hadwaenai yw ei marw.

Er cof annwyl am Nora Parry gan Barti Glynrhonwy
Gorffennaf 1979.

Wrth fyfyr, cyfyd wylu
Os eir i gofio'r amser gynt
Pan yn un yng nghôr Glynrhonwy
O mor hapus oedd ein hynt.

Ond daeth angau, cynllun bywyd,
Mewn amrantiad wedi troi,
Ninnau yma yn ein hiraeth
Hithau wedi fythol ffoi.

Y mae Duw yn galw'r gora',
Fry i gôr Caersalem wen,
Dod a wnaeth gan ddewis Nora,
A rhoi'r goron ar ei phen.

Gŵr dymunol dros ben oedd Mr John Roberts, 14 Maes Padarn, a fu farw yn 52 mlwydd oed ar ôl gwaeledd blin. Bachgen tawel, parod ei gymwynas i bawb ydoedd.

Yn frawychus o sydyn, yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor bu farw Gordon Ward, 4 Maes Padarn, yn 56 oed. 'Roedd yn ŵr poblogaidd iawn, yn barod i helpu pawb bob amser. Cafwyd gwasanaeth yng Nghapel Jeriwsalem, lle 'roedd yn ddiagon, codwr canu ac ysgrifennydd yr Eglwys; ac yn athro Ysgol Sul. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Huw J. Hughes, John Pritchard, Gareth Watts, O.G. Williams, a'r Canon Alun Jones.

Ar ôl gwaeledd byr iawn bu farw Mrs Mary Roberts, 8 Stryd yr Wyddfa, yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, yn 69 oed. Gwraig siriol ydoedd, yn hynod hoff o'r ardd. Cydymdeimlwn â'i phriod Mr R.J. Roberts, ei merch Margaret a'r teulu oll.

CYDYMDEIMLWN — â Mrs Muriel Lloyd, 32 Stryd Fawr yn ei phrofedigaeth sydyn o golli ei thad. Mae ein cydymdeimlad gyda'r teulu oll

DIOLCH — Dymuna pwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch ddiolch yn ddiffuant i bwyllgor Llanberis a'r holl ardalwyr a fu'n gweithio mor galed ac a gyfranodd mor hael i sicrhau y nôd ariannol a osodwyd ar eu cyfer.

LLONGYFARCHION — i John Alan, mab Mr a Mrs Idwal Roberts, Stryd Newton ar gael y drydedd wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol, am ysgrifennu traethawd ar hanes Chwael Dinorwic. Mae Alan yn athro hanes yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog.

CROESO — i Mrs Jennie Hackman adref i Lanberis. Mae Mrs Hackman yn byw yn Seland Newydd ers rhai blynedd oedd. Tra yn Llanberis mae'n aros gyda'i chwaer Mrs Megan Hughes, Maes Llwyn.

AR GOLL — Noson y gemau Giamocs gadawyd anorak yn y Ganolfan. A oes rhywun wedi ei cholli?

Mae'r anorak ar gael gan Mrs Dilys Phillips, Siop Dorothy, Stryd Fawr.

LLONGYFARCHION — i Eleri Parry ar ennill gradd anrhydedd mewn Gwyddor Ty a 'Bywyd a Maeth' yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Caerdydd. Dymuniadau gorau iddi yn y dyfodol.

BETWS GARMON

LLONGYFARCHIADAU — calonnog i Meirion Williams, Y Llythyrdy a Richard Davies, Castell Cidwm ar eu llwyddiant yn arholiad lefel 'O'.

Ac i Carolyn Jones, Tŷ Coch yn arholiad TAU. Hefyd dymunir y gorau iddi yn ei swydd gyntaf mewn siop yng Nghaernarfon.

RAS CWN DEFAID — Cynhaliwyd yr ymryson flynyddol ar Awst 17 a 18. Yr enillwyr oedd:

Dosbarth 1: 1af — Elwyn Griffith, Cae Sgubor, Waunfawr. Dosbarth 2: 1af — H. Morgan, Talsarnau. Dosbarth 3: 1af — John Jones, Dinas, Pwllheli. Dosbarth 4: 1af — Pat Mc Donald, Waunfawr; 2il — Emyr Evans, Bron-y-graig; 3ydd — Elwyn Griffith, Waunfawr; 4ydd — O.P. Pritchard, Plas Isa.

Enillwyr y Raffl oedd: 1. H.O. Jones, Tŷ Coch; 2. Cari P. Owen, Llanrug; 3. V. Marshall, Pudsey; 4. Michael Owen, Ystrad; 5. Grace Williams, 1 Dolerddi, Waunfawr.

YSGUBOR LAWEN

yn

Lleuar Bach, Pontllyfni
Nos Fawrth, Medi 4, 1979.
am 7.30 o'r gloch

ARTISTIAID

Bronwen Naish a Chonsort
Bas Dwbl Ryngwladol

Leah Owen

Elinor Bennet Wigley

Trebor Edwards

Robert Wyn

Côr Gwerin y Gader

(Arweinydd: E. Bennet Owen)

Arweinydd: Charles Williams BBC

Pris Mynediad £1

Yr elw tuag at

Cymdiethas Caernarfon a'r Cylch
dros blant araf eu meddwl

Tocynnau ar gael yn y Co-op, Llanrug, a hefyd gan:

Mrs Jones, Lleuar Bach, Pontllyfni.
Ffôn: Clynog Fawr 237

Mrs B ab Iorwerth, Alltwen,
Ffrwd Cae Du, Bontnewydd.
Ffôn: Llanwnda 830466

LLYTHYRAU

Annwyl Syr,

Mi garwn i yn fawr dynnu'ch sylw chwi at gamgymeriad mawr yn yr adroddiad o dan LLANBERIS, dan y pennawd 'Lleng Brydeinig Frenhinol Llanberis a'r Cylch'.

Yn y lle cyntaf mae'n rhaid rhoi y gair 'Brenhinol' i mewn.

Yn ail, Commander C.J. Jackson R/N RTD yw y Llywydd, ac nid Cynghorydd fel a ysgrifennwyd yn yr Eco.

Major R.D. Marslen-Jones yw y cadeirydd.

Mr Charles Saynor, 44 Maes Padarn, Llanberis yw y prif ysgrifennydd, a Mr Eurwyn Roberts, Tŷ Newydd, Clegir, Llanberis yw'r is-ysgrifennydd.

Mae yn hanfodol ar ran y Lleng fod y teitlau yma yn cael eu harfer.

Ydwyf yn ddiffuant

Edward O. Thomas DSM

Swyddog cysylltiadol y Wasg

O.N. Nid oes gan neb arall hawl i roi unrhyw wybodaeth i unrhyw wasg ond y Press Liasion officer a thrwyddo ef hefyd mae y wasg i gysylltu.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Taith i'r Gofod

(Parhad)

gan

Nia Wyn Jones.

Yn sydyn clywsom lais clir yn siarad drwy'r corn seinydd.

"A wnaiff yr holl griw bwyso'r botwm ar y chwith os gwelwch yn dda, er mwyn cael gwregys diogelwch, y mae'r roced yn barod i gychwyn."

Clywsom y llais clir, (ond nid o'r seinydd) o'r orsaf:

"10! 9! 8! 7! 6!

5!

4!

3!

2!

1!

Sero!"

Saethodd y roced i'r gwagle.

"Mam, mae arnaf ofn."

Gwelais ni yn mynd i fyny, i fyny,

ac i fyny.

Yn sydyn aros. Aros! Sut y medrem ni aros? Roeddem mewn roced ac nid mewn bws. Roedd yn amhosib' aros mewn modurdy i gael petrol. Deallais beth oedd yn bod. Roeddem wedi glanio ar y blaned Mars,

"Mam, p'ryd yr ydym ni yn mynd i gyrraedd y lleuad?"

"O mewn ychydig oriau".

Clywsom lais trwy'r corn seinydd. "Does ond hanner cant o filltiroedd i'r lleuad".

"W, mam, mae yn dod yn agos".

"Ydyw, ydyw, 'does dim rhaid cynhyrfu gymaint."

Yn sydyn, daeth y Lleuad i'r golwg. 'Roedd yn wyrdd a difywyd yn union fel y bobl yr oeddwn wedi ei weld yn fy llyfr.

"O, mam edrychwch! Mae'r golau yn dyfod i lawr."

Beth yr oeddwn wedi ei weld ond soser hedfan gyda golau yn ei hamgylchynu. Daeth dynion bach gwyrdd allan gan siarad mewn llais miniog.

"Helo, bobl y ddaear. A ydych chi wedi dod i ymweld a ni? Dyma'r lleuad, ein planed ddiffaith ni, mae rhai pobl wedi dod i ymweld â ni ond nid ydynt wedi gweld y ddaear ers hynny, mae'r brenin wedi eu cadw yn gaethweision, clywch dyma'r brenin yn dod 'nawr."

"W,w,w,w, 'rydw i yn arogi gwaed pobl y ddaear."

"Mam, mae arnaf ofn."

Cawr mawr tew esgymog oedd e gyda phedwar llygaid.

Gwelodd ni, y criw o'r ddaear, ac meddai,

"O, da iawn, mwy o gaethweision o'r ddaear, maen' nhw'n rhai da am goginio a glanhau'r palas. Dewch 'nawr fy ngweision annwyl rhaid i chi wisgo siwtiau gwyrdd fel y gweision eraill, dilynwch fi". Ni chychwynnodd neb ond gwaeddodd y cawr neu'r Brenin ('roedd yn debycach i gawr).

"Dilynwch fi'r bratiau budron".

Wel, gydag edrychiad a llais fel hyn, nid oedd posib' ymwrthod. Cerddodd pawb yn ddistaw bach i'r palas, heibio'r orsedd, trwy'r lolfa, ac i gegin fawr dywyll. Yno 'roedd caethweision Edrychais ar wyneb bob un. 'Roedd golwg flinedig a du ar eu hwynebau oll ac oddi tan eu hewinedd yn ddu gyda baw. Yn sydyn taflais fy llygaid ar un ddynes, 'roeddwn yn ei chofio. Wrth gwrs, Modryb Meri Ty'n Lon, Pentre'r Felin oedd hi. 'Roeddwn wedi clywed am ei hanes yn mynd ar drip i'r Lleuad ac heb erioed ddod yn ôl.

"Modryb Meri, Modryb Meri, felly dyma ble yr ydych wedi bod yn aros neu'n chwarae rhyw fath o driwant".

Gwenodd hithau ac meddai, "Ia, fy merch i, yn gweithio i'r brenin yma."

'Roedd pawb arall yn edrych yn syn arnaf, hyd yn oed fy nheulu. Gofynnodd y brenin yn sarrug,

"A ydych yn adnabod eich gilydd?"

"Ydym", atebais.

"Wel, rhaid eich cadw i ffwrdd oddi wrth eich gilydd felly".

Nid oedd neb yn hoffi'r sgwrs yma.

"Oes rhywun yn berthnasau yma?"

Nid atebodd neb.

"Mae rhywun yn perthyn i'w gilydd yma, nid ydych yn unigolion i gyd."

"M...m...m...mi ryd...d...d...ym n...n...ni yn u...u...un teulu," dywedodd fy mam yn ofnus fel llygoden, a chath ar ei hôl.

"O ie, nid ydyw hynny'n cyfrif, cyfnither, neu gefnder neu ewythr neu fodryb yr ydwyf fi yn ei feddwl."

Nid atebodd neb.

"Wel, felly rhaid yw i chi weithio gyda'ch gilydd, er bod hynny'n groes i'm hewyllys i."

Cerddodd pawb allan o'r gegin i'r cefn, allan o'r plas. Ar lawr yno, fel ym mhobman arall ar y Lleuad 'roedd y llawr yn wyrdd a diffaith. Edrychodd pawb o gwmpas ond y cwbl yr oeddwn i a phawb arall yn ei weld oedd deuddeg bin sbwriel. Deuddeg? Dyna faint o griw oedd ar y roced? 'Roeddwn wedi meddwl yn iawn. Oherwydd yn sydyn dywedodd y brenin,

"Dyma un bin sbwriel yr un i chi. Yn hwn y byddwch yn rhoddi y bwyd fyddaf fi'n ei wastraffu."

"A ydych chi'n meddwl y byddwch yn gwastraffu digon i lenwi dwsin o finiau sbwriel?" gofynnais.

"Byddaf wrth gwrs, mewn wythnos. Amser brecwast, cinio, amser te ac amser swper ac yna sglodion a sgod am unarddeg". Gofynnodd fy mam mewn syndod,

"A ydych yn meddwl y byddan ni yn aros yma am wythnos?"

"Wrth gwrs, efallai am fwy."

I'w barhau.

O GABAN Y CHW

(Parhad)


Yn 1926, adeg y streic fawr, ¼ cant yr un oedd i'w gael am 6½c yn codi i ½ cant ym Mehefin, a'r glo yn dod o Ffrainc oherwydd prinder, yn ôl 2/8 y cant. Gyda llaw, roedd y gweithwyr bron i gyd yn cael ½ cant o lo hefyd oherwydd y streic. Mae amryw o enwau ar gael. Yr oedd y glo ar gyfer y swyddfeydd, y cabanau, a'r injian stêm yn cael ei anfon i fyny'r inclen mewn wagen focs, ac roedd yn rhaid gofalu fod y rhain wedi cyrraedd pen eu siwrnai cyn caniad yr hwyr yn enwedig o ben y Llwybyr Main neu'r A2 Inclen neu mi fyddai'r llwyth yn llawer llai erbyn y bore — Pwy wêl fai ynte?

Golau kannwyll neu lamp baraffin, a phapur brown ar y ffenestri i gadw'r gwynt a'r nos allan. Dau mewn barics, un profiadol ac un ieuanc er mwyn cadw tipyn o drefn, ac weithiau tad a mab neu rhyw berthynas arall. Gofalu dweud y pader cyn mynd i'r gwely gwellt neu beiswyn, ac yn ôl yr hen ddywed- iad, digon o gwmpeini arall hefyd, ac os byddai rhywun yn dweud fod chwannen y barics yn pwyso dwy owns mi fyddai'n ddau bwys wedi cyrraedd caban y chwarel. Mi fyddai yna ddweud pryfoclyd pan fyddai'r dynion yn mynd adref am y pen wythnos na fyddent yn medru cysgu rhyw dda iawn wedi colli'r cwmpeini, ac y byddai'r chwaïn ar y stepan drws yn eu disgwyl yn ol ar fore Llun — hiraeth am y gwaed mae'n debyg!

Dic Bach Sir Fôn yn dreifio injian stêm yn yr Allt Ddu — y 'Maid Marian', a chymaint o afael ganddo yn ei waith fel y byddai'n dod i'r barics ar nos Sul er mwyn bod yn ddigon bore i danio'r injian fore Llun a'i chael allan ar y caniad. Cerdded o Frynsiencyn i Foel y Don am y 'stemar bach' i Gaernarfon a cherdded wyth milltir i'r barics.

Un direidus a gwamal oedd Richard Jones. Tynnwr coes heb ei ail, ac felly y byddai gyda'i bartner yn y barics. Pawb â'i orchwyl oedd hi, gofalu am goed tân erbyn y bore, dŵr yn y tecell, gosod trap i ddal llygod, cloi y drws. Dic fyddai'r cyntaf i'w wely wrth y pared, a Wil, toc, ar ei liniau wrth y gwely'n dweud ei bader. Dic yn gweiddi, "Wil, wyt ti wedi'r cloi'r drws?" — "Do" ... distawrwydd am eiliad — "Wil, wyt ti wedi gosod y trap?" — "Do, do." ... distawrwydd eto — "Wil, wyt ti wedi rhoi dŵr yn y tecell?" Wil yn gwylltio o'r diwedd ac yn gweiddi, "Cau dy geg y diawl, mi rydw i wedi mynd i 'bara beunyddiol' dair gwaith yn barod!"

Rhai da am gadw dyddiadur oedd hogia'r barics, nid ar bapur, ond ar lintar y ffenestr neu garreg yr aelwyd, carreg y drws neu rhyw fangre lle'r eisteddent ar noson braf yn yr haf. Digwydd- iadau'r dydd, eu henwau, enw'r



Gweithwyr Gro 1910.



Gweithwyr Ponc Hafod Owen, Chwarel Dinorw



Derbyniodd Mr R. Hughes y llun hwn o hogia Tynnwyd y llun ym 1927. Dywed Mr Hughes sef William Oliver Jones, John Gors, John David

cartref a'r pentrefi — Brynsiencyn Bryngwran, Llangristiolus, Llan- bedrgoch, Gaerwen ... a Four- crosses, Arfon, ac wedi eu cerfio'n ddwfn fel pe'n herio gerwinder tywydd yr Elidir i'w difa byth. Cefais lechen yn un o'r barics y diwrnod o'r blaen ac wedi ei gerfio arni — 'Evan Roberts y Diwygiwr yn Pafiliwn Caernarfon Gorff. 1905', 'Agor stesion newydd Pwllheli, Gorff. 1909' a —

VAREL gan Hugh R. Jones



1921. Llun: Mr Myrddin William, Penterfyn.



Banc Isa Braich oddi wrth Mr Alun Jones, Corby. Nad oes on tua pedwar ohonynt yn fyw erbyn hyn Jones (John Daf) ac Alun Jones (Alun Fosse).

'H.T.W., Saron, Bethel' — yr hen Huw Mêt, mae'n debyg, er nad oedd o yn un o hogia'r barics chwaith.

Galw heibio'r Drenwydd yn ystod yr haf, dieithriad wedi ymweld ac wedi sgwennu ar draws y 'diaries' — "Liverpool F.C." — "Tottenham Hotspur" ac "Arsenal for ever" a llun calon wedi ei thrywanu a "June loves David" wedi ei sgwennu ar ei

thraws. Gweld gaeaf arall a byddant wedi diflannu, ond yr hen enwau'n aros, ac atgofion lu i'w canlyn.

Cymeriadau gwahanol yn Aberdaron a barics gwaelod y gwaith. Aberdaron yn bell iawn o'r pentrefi, dim ond y rhai ieuanc a'r mwyaf heini ohonynt yn mynd i Ddeiniolen i gael ychydig bethau i lenwi'r cwpwrdd i bara hyd y Sadwrn. Dim llawer o arian i'w wario ond yn cael cwmpeini a gwlychu'r wefus yn y 'Bull' neu'r 'Wellington'. Gofyn i un rhyw dro — "I ble rwyf ti'n mynd ar dy wyliau?" "I Istanbul" oedd yr ateb parod — Ista yn y 'Bull' wrth gwrs.

Hogia yn y Drenwydd a'r barics cyfagos yn treulio gyda'r nos yn Llanberis. Pictiws bach Llanber yn enwog y cyfnod hwnnw a chriw direidus efo'i gilydd yn medru fforddio tair ceiniog i ddilyn y 'serials' ddwy-waith neu dair yr wythnos, a'r rhai ifanc yn Llanberis yn ceisio osgoi eistedd wrth eu hymyl wedi clywed am y chwain. Eraill wedi syrthio mewn cariad, yn herio'r chwain ac yn eistedd yn eu canol, a llawer ohonynt wedi priodi a chartrefu yn Arfon. Tybed nad oedd llawer o'r chwain oedd yn cartrefu ar lawer ohonom yr adeg honno yn ysgafnhau'r 'blood-pressure' — nid oedd llawer o sôn amdano yn y cyfnod hwnnw. Beth amdanynt yn ôl?

Roedd amryw o'r dynion yn cymryd diddordeb mawr yn y capel, y cyrddau mawr, y seiat a'r eisteddfodau. Cofia rhai heddiw fel y byddent yn mynd i'r Capel Coch a chapel eraill i'r seiat a'r cyfarfod gweddi ac yn cymryd rhan yn gyhoeddus yn y cyfarfodydd rheiny, yn enwedig y cyfarfodydd gweddi dechrau'r flwyddyn yn Llanberis a Dinorwig. Mynd yn eu dillad gwaith a'r sgidiau trwm neu gloesia wedi glanhau tipyn o'r llwch i ffwrdd. Adnabod llawer iawn wrth enw y pentref yr oeddynt yn byw ynddo — hwn a hwn o Frynsiencyn, ac yn y blaen. Pum brawd o'r Gaerwen. Dafydd yn rhedeg ras bum milltir a reidio beic rownd cae y Carnifal ac yn ennill bob yn ail â Sam Capel Seion. John Williams o Frynsiencyn, a beth yn well na'i alw'n 'Hen Barch'? Yn annwyl gan bawb ac yn fwy o ganwr nac o bregethwr. Dod o Sir Fôn i Dinorwig yn y cyfnod hwnnw oherwydd nad oedd llawer o waith i'w gael, dim ond gwaith ffarm mae'n debyg. Cael cyfle i ennill tipyn mwy o arian ar gontract yn y 'chwalar' fel y dywaid pobl Môn. Ychydig oedd yn chwarelwyr, wedi dod i'r chwarel yn rhy hen i'w prentisio. labrwy, creigwyr, fforddolwyr, a gweithio ar ben y tomennydd oedd llawer, ac yn weithwyr caled a chydwybodol iawn a cheisio ennill cymaint ag oedd bosibl yn ystod yr wythnos. I'w barhau!

RAS YR WYDDFA 1979

Cynhaliwyd 4ydd Ras Flynyddol yr Wyddfa ddydd Sadwrn Gorffennaf 21, 1979, sef prynhawn Carnifal Llanberis.

Cofrestrodd yn agos i 300 o gystadleuwyr yn y gwahanol ddosbarthiadau a da oedd gweld mintai helaeth o fechgyn y fro yn rhagori yn y Ras fawr.

Y buddugol yn y brif ras oedd Geoff Norman o Altringham a gwblhaodd y cwrs mewn amser o awr a 5 munud, ond yn 32 eiliad y tu allan i record 1978 Ricky Wilde. Gwelwyd cystadlu brwd wrth ddringo'r mynydd gyda Dave Francis o Fryste yn cyrraedd y copa mewn record newydd o 42 munud 10 eiliad — cryn 18 munud yng nghynt na'r trê'n bach. Yr oedd yn amlwg fod gorchest Francis wedi ei flino gan iddo ildio i Geoff Norman a Ricky Wilde a gorffen yn drydydd. Serch hynny, mae Dave Francis wedi bod yn gyntaf i'r copa dair gwaith allan o bedair er sefydlu'r Ras yn 1976. Yn y ras i ferched, enillodd Joan Glass y brif wobwr am y drydydd flwyddyn yn olynol mewn amser o 1.29.02.

Yn y dosbarth lleol gwelwyd Tegid Roberts o Lanllyfni yn rhagori ar ei amser 1978 ac yn cipio'r wobwr mewn amser o 1.17.01. Gan mai amser y llanc oedd yn gyntaf yn 1976 oedd 1.31.38 mae'r ffaith fod 8 o hogiau'r fro wedi gwella ar yr amser eleni yn dyst i'r cynnydd a fu yn y safon lleol yn ystod y bedair blynedd ddiwethaf cafwyd mwy o dystiolaeth o hyn yn y dosbarth iau a rhyfeddod oedd gweld tri brawd, sef Jason, Paul a Darren Roberts o Lanberis, yn cipio'r dair wobwr gyntaf yn y ras i blant dan 11 oed. Yn y dosbarth i blant dros 11, fe enillodd Garry Ellis y brif wobwr gan redeg at Aneddle Hanner Ffordd ag yn ôl mewn amser o 43 munud 9 eiliad, sydd yn gwbl anhygoel i fachgen 12 oed.



Y tri brawd — Paul (3), Jason (2), a Darren (1).

Dyma y Prif Ganlyniadau Lleol.

Y BRIF RAS

Tegid Roberts	1.17.01
Gwynfor Owen (Llanrug)	1.26.28
E. Wallace (Cwm y Glo)	1.26.41
G.M. Parry (Llanberis)	1.27.03
R.J. Williams (Ceunant)	1.30.29

PLANT IAU

(O dan 11) — at Bont Hanner Ffordd.

1. Darren Roberts	37.17
2. Jason Roberts	37.39
3. Paul Roberts	39.34
4. Dylan Roberts	39.40
5. Brian Glass	41.42

IEUENCTID

(O dan 14 oed) — At Hanner Ffordd.

1. Garry Ellis	43.09
2. Gareth Hughes	46.18
3. Kevin Jones	47.18
4. David Glass	50.44
5. Morgan Rowlands	51.04

PLANT HYN


(O dan 16) at Hanner Ffordd.

1. A. Soper	42.10
2. T. Roberts	44.09
3. D. Roberts	45.09
4. P. Warren	47.08
5. N. Bellington	47.27

GENETHOD

(O dan 11 oed).

Petula Williams	47.55
-----------------	-------



Garry Ellis yn gorffen

CARNIFAL LLANBERIS 79

Llwyddiant aruthrol oedd hanes y carnifal eto eleni. Cafwyd cychwyn da gyda'r fenter newydd 'Padarn Roc', yna 'Noson o Gân' wefreiddiol yng nghwmni 'Côr Meibion y Moelwyn'. Seindorf arian Llanberis a Deiniolen oedd yn arwain yr orymdaith diwrnod y carnifal gyda Dawnsywyr Morys Llanberis, Bethel, Llanrug a Majorettes Llanrug, Caernarfon a'r Lynnette Troupe o Gaernarfon. Dymuna Ddawnsywyr Morys Bethel ddolch i Eric Morris am eu cludo yn rhad ac am ddim. Agorwyd y carnifal gan Mr Dafydd Wigley AS a Mrs Wigley a Mr a Mrs Evans, Gwesty'r Victoria. Cafwyd arddangosfa gan Mr Martin Oar o Plymouth sy'n gweithio gyda'r MBZ pryd y disgynnodd gyda'i frawd bron o ben Elidir a glanio ar faes y Carnifal. Mawr oedd y mwynhad o wyllo rhedwyr Ras yr Wyddfa.

Gweler tud. 9 am adroddiad o Ras yr Wyddfa.

ENILLWYR Y CHWARAEON

BABANOD: 1. Alyn Bayliss, 2. Euron Thomas, 3. Colin Griffiths.

DOSBARTH 1 (Genethod): 1. Linda Prytherch, 2. Glenda Jones, 3. Sally Owen.

DOSBARTH 1 (Bechgyn): 1. Edward Rogers, 2. Trystan Rees, 3. Cai Williams.

DOSBARTH 2 (Genethod): 1. Jennifer Jones, 2. Lynne Jones, 3. Einir Thomas
DOSBARTH 2 (Bechgyn): 1. Simon Williams, 2. Mark Williams, 3. Trystan Thomas.

DOSBARTH 3 (Genethod): 1. Bethan Wyn Jones, 2. Wendy Rowlands, 3. Gillian Glass.

DOSBARTH 3 (Bechgyn): 1. Aled ap Deryl, 2. Paul Prytherch, 3. Colin Jones.

RHWNG 7 a 9 oed (Genethod): 1. Dianne Jones, 2. Nia Thomas, 3. Nia Williams.

RHWNG 7 a 9 oed (Bechgyn): 1. Dylan Ellis, 2. Tony Roberts, 3. Andrew Griffiths.

RHWNG 9 a 11 oed (Genethod): 1. Helen Mai Pritchard, 2. Alison Edwards, 3. Petula Williams.

RHWNG 9 a 11 oed (Bechgyn): 1. Neil Jones, 2. Darren Roberts, 3. Terry Saynor.

RHWNG 11 a 14 oed (Genethod): 1. Mellanie Sellars, 2. Glenda Roberts, 3. Iorwen Jones.

RHWNG 11 a 14 oed (Bechgyn): 1. Nigel Roberts, 2. Paul Thomas, 3. Steven Thomas.

100 LLATH RHWNG 11 a 14 oed (Genethod): 1. Elaine Jones, 2. Carol Jones.

100 LLATH RHWNG 11 a 14 oed (Bechgyn): 1. Maldwyn Williams, 2. Terence Griffiths, 3. Norman Bohana.

100 LLATH AGORED: 1. Tony Jones, 2. Michael Wyn Griffiths.

100 LLATH DROS 30 oed — dim cystadleuaeth.

100 LLATH RHWNG 16 a 30 oed (Merched): 1. Marie Bayliss, 2. Elen Morris.

100 LLATH RHWNG 30 a 40 oed (Merched): 1. Pat Turner, 2. Ceinwen Williams.

100 LLATH DROS 40 oed: Dim cystadleuaeth.

RHEDEG MILLTIR: 1. Eifion Jones, 2. David Griffiths, 3. Maldwyn Williams.

RAS DRITHROED (Ysgol Dolbadarn): 1. Iorwen Jones a Iona Roberts, 2. Paul Roberts a Ian Evans, 3. Daren Roberts a Huw Maxwell.

RAS DRITHROED (Ysgol Brynrefail): 1. Elaine Jones a Janice Jones, 2. Nigel Roberts a Maxine Thomas, Cydradd 3. Carol Jones a Dilys Jones, a Carol Prytherch ac Irene Evans.

RAS DRITHROED (Merched): 1. Sian Thomas a Marie Bayliss, 2. Vivian Thomas a Mary Lynn Carr.

RAS TÎM O BEDWAR (Genethod) AGORED: 1. Carol Prytherch/Irene Evans/Iona Roberts/Iorwen Jones.

RAS TÎM O BEDWAR (Bechgyn) AGORED: 1. Maldwyn Thomas/Paul Thomas/Steven Thomas/Nigel Roberts.

RAS BEIC ARAF (Ysgol Dolbadarn): Genethod: Iorwen Jones. Bechgyn: David Addye.

RAS BEIC ARAF (Ysgol Brynrefail): Genethod: Elaine Jones. Bechgyn: Nigel Rowlands.

RAS BEIC GYFLYM AGORED: Genethod: 1. Iorwen Jones, Bechgyn: Nigel Rowlands.



Brenhines Maxine gyda'i dwy weinyddes Gillian a Nia.

ENILLWYR Y WISG FFANSI

DAN 3 OED. UNRHYW WISG: 1. Andy Pandey — Claire Morris, 2. Ladybird — Colin Ellis, 3. King of Poland — Mark Williams.

3 — 5 OED. CYMERIAD ADNABYDDUS: 1. Mary Mary — Louise Ellis, 2. Hot X Bun — Mark Ellis, Cydradd 3. Cleopatra — Miriam Thomas a Hulk — Ian Hughes.

3 — 5 OED. GWISG HYSBYSEBU — 1. Rbertson Jam — Ken Jones, 2. Milky Way — Mark Atkin, Cydradd 3. Save the Whales — Dylan Williams a Mr Smiles — Rebecca Parry.

5 — 7. CYMERIAD ADNABYDDUS: 1. Hogyn Pren — Deian Owen, 2. Bunny Girl — Delyth Davies, 3. Mr Bump — Sammy Lowe.

5 — 7. GWISG HYSBYSEBU: 1. Esso — Eilian Wyn Roberts, 2. 8 Draws — Amy Jones, 3. Gwisg Gymreig — Christine Pitts.

7 — 9. CYMERIAD ADNABYDDUS: 1. Dan Dŵr — Keith Jones, 2. Wizard of Oz — Ieuan Wyn Jones, 3. Charlie Chaplin — David Andrew Evans.

7 — 9. CYMERIAD HYSBYSEBU: 1. Busby — Dylan Parry, 2. Roses Chocolates — Delyth Williams, 3. Graded Grains — Nia Williams.

9 — 12. UNRHYW WISG: 1. Mini Ha Ha — Judith Jones, 2. Little Boy Blue — Morfen Hughes, 3. Max Boyce — Lyn Davies.

12 — 16. UNRHYW WISG: 1. Marged Uch Ifan — John Haydn Hughes, Cydradd 2. Punk Rockers — Julie Rutherford ac Anette Shan a Hulk — Ceirion Hughes.

CYMERIAD UNIGOL GORAU — Marged Uch Ifan — John Haydn Hughes.

DROS 16. UNRHYW WISG — 1. Frankenstein — Emrys Jones, 2. Witches



Dawnsywyr Morys Llanberis. (Dymunant ddolch yn fawr i Mr Jack Thomas, 3 Coed Marian, Caernarfon am y tlws hardd a gyflwynodd iddynt).

— Ann Jones, Lyn Ellis, Lyn Ellis, 3. Englands' Glory — Arwyn Roberts. Rhoddodd y pump yn yr adran yma eu gwobreuon yn ôl.

TABLO STRYD: 1. Sing a song of sixpence — Stryd Newton. 2. Red Indians — Julie Williams. 3. Year of the Child — Iona Hughes.

GRŴP GORAU AR DROED: 1. Clowns — Stryd Cambrian.

PÂR DIGRIF: 1. Clowns — Bryn Roberts, ac Anna Lloyd Roberts.

PRAM WEDI EI ADDURNO: 1. Pink — Joan Hughes. 2. Buggy — Andrea Roberts.

BEIC WEDI EI ADDURNO — 1. Alarch — Euron Thomas, 2. Pencampwyr Peldroed Llanberis — Dylan Williams.

ADRAN ARBENNIG AGORED: 1. Clown — Nerys Lloyd Price, Dolwyddelan. 2. Hazel Watership Down — Adrian Wyn Evans, Llanrug.

GWOBR ARBENNIG TABLO STRYD (Llanberis yn unig): Sing a Song of Sixpence — Stryd Newton.

ENILLWYR YR ANAGRAMAU

Cyfartal Gyntaf: Miss E. Roberts, 10 Stryd Turner, Llanberis, Miss E. Morris Awelfryn, Tan y Coed, Llanrug, Mrs O.L. Parry, Ael y Bryn, Tan y Coed, Llanrug.

£1 o wobr yr un.

ENILLWYR RAFFL

RAFFL FAWR

1. £40 Ann Griffiths, Crown Buildings,

Caernarfon. 2. £30 L. Williams, Joiners Shop, MBZ' 3. £20 Iolo Evans, Castle Gift Shop, Llanberis. 4. £10 G. Jones, Greuor Villa, Brynrefail. 5. Hamper — P. Roberts, Rock Terrace, Llanberis. 6. Hamper — Margaret, 33 Maes Padarn, Llanberis. 7. Cant o lo — Eunice 7281 Hi-Speed, Llandegai. 8. Case — J.E. Summers, Llŷs-y-grug, Groeslon. 9. Compact — 16 Dol Elidir, Llanberis. 10. Sherry — J. Antoine, Heulfryn, Llanberis. 11. Lliain Bwrdd — T. Roberts, Erw Faen, Tregarth. 12. Tights — Ellis, 5 Rhos Victoria, Llanberis.

RAFFL STONDIN DEISENNAU

Rhifau — 1. 492, 2. 349, 3. 302, 4. 434.

RHAGLEN RHIF LWCUS

Rhif 979 — Miss Sonja Brooks, Crieff, Scotland.

RAFFL OEN CYFAN (Rhodd W.O Griffiths, Lon Glai, Pontyru.)

I'w thynnu diwrnod Ffair Nant. — sef 18 o Fedi. Tocynnau ar werth yn Siop Castle Gift a Siop Dorothy, Stryd Fawr, Llanberis.

Oherwydd diffyg gofod ceir rhagor o ganlyniadau a lluniau yn yr hifyn nesaf.

HARLEY'S

(Siop Dilladau Plant)

Stryd Fawr Llanberis

Dilladau Plant o bob math
o fabanod i dair ar ddeg oed

GWISG SWYDDOGOL
AR GYFER GENETHOD
A BECHGYN
YSGOL BRYNREFAIL
Ffôn: Llanberis 393

BRYNREFAIL

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERNARFON A'R CYLCH — Llongyfarchion i Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed, a oedd yn gydradd fuddugol gyda dau arall yng nghystadlaeth y traethawd. 'Braslun o hanes Chwarel Dinorwic' oedd testun ei thraethawd, yn dilyn hanes y chwarel ers 1750 pan oedd un o hynafgwyr a chloddwyr cyntaf y chwarel, Edward Prys, Bryn Madog â chysylltiad teuluol â Miss Roberts, 6 cenhedlaeth yn ôl.



Llongyfarchion hefyd i blant y pentref am eu rhan yn y Pasiant llwyddiannus 'Beibl y Plant'. Cynrychiolwyd y pentref gan Alwen Jones, Jackie Wager, Susan Parry, Christine Jones, Meinir Wyn Jones, Jacqueline Walters, Terry Parry, Neil Roberts, Terry Jones, Robin Jones, a Richard Glyn Ellis.

Yn seremoni croesawu'r Eisteddfod yn y pafiliwn ar ddydd Sadwrn Awst 4, cynrychiolwyd y pwyllgor lleol ar y llwyfan gan y trysorydd, Mr Islwyn Williams.

Cafwyd llythyr o Swyddfa'r Eisteddfod i ddiolch yn swyddogol am gyfraniad Brynrefail. Cofnodwyd pob cyfraniad o 3 punt neu drosodd yn y rhaglen swyddogol, sydd i'w gweld gan Dafydd Elis, Gwledfa.

GENEDIGAETH — Llongyfarchion i Mr a Mrs Daniel Roberts, Pen Dinas Mawr ar enedigath eu merch Lois.

BEDYDD — Gweinyddwyd Sacrament o Fedydd yn yr Ysgol Sul Gorffennaf gan y parch S.O. Hughes, Bethel, pan fedyddiwyd Sarah, merch Janet a Tony Pepper, Deiniol House, Llanberis.

Cafwyd gwasanaeth y Parch S.O. Hughes hefyd ar Awst 5 pan dderbyniwyd Medwen Jones, Greuor Villa a Marian Evans, Min y Don yn gylfawn aelodau o'r Eglwys.

LLWYDDIANT — Llongyfarchion i Anita Jones, Cae Coch ar ei llwyddiant yn arholiadau lefel 'A'. Cafodd dri phwnc, sef Daearyddiaeth (A), Bioleg (C), a 'Gwyddor Tŷ' (E). Mae Anita wedi ei derbyn i Brifysgol Caerdydd a dymunwn bob llwyddiant iddi.

Llongyfarchion hefyd i Emyr Jones, 9 Tremellian ar ei radd mewn Pensaernïaeth o Athrofa UWIST Caerdydd ac hefyd i Tecwyn Williams, Marino ar ei radd yn yr un pwnc yn Lerpwl.

Hefyd, llongyfarchion i Kathy Williams, Marino ar ei llwyddiant yn arholiad cerddorol Gradd 1.

CLWB 'REFAIL — Gorffennaf 3 — cafwyd noson ddifur yng ngofal Mr Iddon Jones a roddodd eglurhad a hanes ei waith gyda James Williams & Partners sydd yn gweithredu yng Ngorsaf Gynhyrchu Trydan Dinorwic.

Gorffennaf 17 — daeth Miss Elinor Jones o Ddeiniolen i Dŷ Glas i ddangos lluniau a thraddodi hanes Pasiant enwog Oberamagau.

Gorffennaf 28 — cafwyd taith fws o amgylch Sir Fôn, gan alw yng Nghaergybi ac aros am de ym Miwmaris. Mwynhawyd y daith yn fawr gan bawb.

CYDYMDEIMLWN — Yn ddwys fel ardal gyda theulu 9 Tremellian, wedi marwolaeth ddiweddar Mrs Doreen Williams yn ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon. Cofiw'n at y teulu oll yn eu profedigaeth.

CLWB PEDWAR UGAIN — Enillwyd misoedd Mehefin a Gorffennaf: Mehefin 1: 1. Islwyn Williams, 2. Phyllis Jones, 3. Jennie Roberts. Mehefin 8: 1. Maldwyn Jones, 2. Owen Walters, 3. Barbara, Lerpwl.

Mehefin 15: 1. Sheila Williams, 2. Dwynwen Owen, 3. Euronwy Roberts. Mehefin 22: 1. Helen Roberts, 2. Shirley Roberts, 3. Eifion Roberts. Mehefin 29: 1. Pat Jones, 2. Ken Jones 3. John Williams.

Gorffennaf 7: 1. Alwyn Roberts, 2. Margaret Jones, 3. Judy Walton.

Gorffennaf 13: 1. Hannah Jane Jones 2. Mrs Owen Tremellian, 3. William Hughes.

Gorffennaf 20: 1. Sylvia Williams, 2. Len Parry, 3. Mike Collins.

Gorffennaf 27: 1. Jennie Roberts, 2. Pat Mowl, 3. Eleri Roberts.

PRIODASAU — Llongyfarchion i Brian Elton Jones a Caroline McCall ar eu priodas ym Manceinion ar 16 o Fehefin. Maent am gartrefu yn Swinton ac mae Brian yn parhau gyda'i waith gyda'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan.



Dymunwn yn dda hefyd i Gwyneth Green a Noel Thomas a briodwyd yng Nghaernarfon ar 28 o Orffennaf. Maent yn cartrefu yn y Bontnewydd.

PRIODAS — Ar Fehefin 30 priodwyd Mair Wyn Evans, Ty'n Buarth a Dennis Wyn Davies. Byddent yn cartrefu ym Mhenisarwaun. Pob dymuniad da iddynt.

CARNIFAL BETHEL



Tair o wragedd 'ifanc' y pentref yn hwylio i gychwyn i'r Carnifal eleni.

BETHEL

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERNARFON — Cafwyd Eisteddfod llwyddiannus iawn ar ôl yr holl waith a'r ymdrechion dros y ddwy flynedd diwethaf. Dymuna pwyllgor lleol Bethel, Llanddeiniolen a Seion ddiolch o galon i bawb yn yr ardal a gyfrannodd mewn arian a gweithred tuag at y gronfa leol. Caewyd y gronfa gyda £2,267 — £17 yn fwy na'r nôd.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN — Yn dilyn ymddeoliad Mr William G. Ellis, 15 Cremlyn at ôl gwasanaeth blynyddoedd ar y Cyngor Cymuned, tri chynrychiolydd yr ardal ar y Cyngor yw Mr Goronwy Jones, Glan Gors, Mr Richard Hughes, Fachell Bach a Mr Geraint Elis, Sycharth.

LLONGYFARCHIADAU — i Mrs Kate Williams, Trigfa a fydd yn cael ei phenblwydd yn 90 oed ddiwedd y mis.

DYMUNIADAU GORAU — i Mrs Myfanwy Jones, Trigfa, Erw Bian sydd wedi dod adref o Ysbyty Dewi Sant, Bangor ar ôl triniaeth lawfeddygol.

LLWYDDIANT — Bu nifer o blant y pentref sy'n cael gwersi piano gyda Mrs Heulwen Williams, Cefn y Gwynt yn eistedd arholiadau yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt i gyd ar eu llwyddiant: — Gwenno Bebb, Rhian Parry, Ceinwen Parry, Meinir Dauncy Williams, Manon Dauncy Williams, Mair Hughes, Angharad Elis, Angharad Price, Meinir Owen, Mari Owen, Gweno Owen, Euros Jones, Gerwyn Jones a Rhian Davies.

YSGOL FEITHRIN — Mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn y Neuadd ddechrau Haf fe benderfynwyd agor

Ysgol Feithrin yn y Pentref. Bydd yr ysgol yn cychwyn yn ystod mis Medi a bydd yn cyfarfod ar ddau fore'r wythnos. Fe dderbynnir plant i'r ysgol feithrin ar ôl iddynt gyrraedd 2½ mlwydd oed. Dylid rhoi enwau i Mrs Ann Parry Waen Deg.

Nos Wener, Hydref 7 am 6.30 fe gynhelir disgo yn y Neuadd i blant dan 12 oed. Bydd yr elw yn mynd at yr Ysgol Feithrin.

CYDYMDEIMLO — Yn ystod yr haf bu farw Mr Samuel Jones, Elidir; Mrs Phoebe Roberts, Llys Llewelyn a Mr John Griffith Owen, 12 Tan y Cae.

Mae'n cydymdeimlad llwyr â'r teuluoedd yn eu profedigaeth.

BEDYDDIO — Brynhawn Sul Gorffennaf 22, bedyddiwyd dau blentyn bach yng Nghapel Cysegr gan y Parch W.R. Williams. Bedyddiwyd Carwyn John mab Idwal a Lynwen Morris, Perthi, Y Rhos, a Sioned Wyn, merch Hugh a Glenys Jones, Pant yr Afallen Bach.

Y CARNIFAL — Cafwyd wythnos o ŵyl llwyddiannus iawn yn ystod y Carnifal ddiwedd Mehefin gyda nifer ardderchog yn troi allan i'r holl weithgareddau o'r gymanfa ganu nos Sul i'r carnifal ddydd Sadwrn. 'Roedd pawb wedi mynd i drafferth garw yn gwisgo ar gyfer y cystadlaethau ddydd Sadwrn.

Dymuna'r pentref i gyd ddiolch i bawb a fu mor weithgar yn cyfrannu at ei llwyddiant.

Penderfynwyd cadw peth o'r elw yn ôl ar gyfer trefnu Carnifal y flwyddyn nesaf ond rhannwyd y gweddill o'r elw fel a ganlyn.

Y Neuadd £150, Yr Ysgol Feithrin £50 Yr Urdd £30, Grŵp Sant Ioan £20.

CARNIFAL BETHEL DROS 30 MLYNEDD YN ÔL.



Mr Hugh T. Hughes, Llys Orwig oedd yn arwain yr orymdaith.

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

Llanrug

GWAELEDD — Deallwn fod Mr George Morris, 18 Gllanmoelyn wedi bod dan driniaeth feddygol yn Ysbyty Eryri yn ddiweddar. Da yw deall ei fod wedi cael gadael yr ysbyty a'i fod yn gwella yn foddhaol.

RHODDION I'R EGLWYS — Bydd rhoddion er cof am Mr Roberts Jones gynt o Idan House, Miss F.M. Johnson gynt o'r Caunant a Dilys Cadwaladr yn cael eu cysegru a'u cyflwyno i wasanaeth Eglwys Sant Mihangel yn y dyfodol agos. Fe ddolchwn i'r teuluoedd a chyfeillion am eu haelioni.

PABELL YN YR EISTEDDFOD — Bu'r ymateb am roddion tuag at wneud lluniaeth ysgafn ym mhabell yr Eglwys yng Nghymru ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn foddhaol iawn. Bu i blwy Llanrug fod yn gofalu am y babell ar ddau fore. Fe ddymunem ddiolch i bawb a fu yn ein helpu.

MARW — Bu farw Mrs L. Lewis, Minffordd Terrace yn ddiweddar. Yr oedd ymysg yr aelodau hynaf o Eglwys Sant Mihangel. Brodor o gyffiniau Manceinion oedd Mrs Lewis ond bu yma'n byw am nifer fawr iawn o flynyddoedd. Gwasanaethwyd yn ei hangladd yn yr Amlwgfa ym Mangor ac yn y fynwent wrth gladdu ei llwch gan y Rheithor. Cydymdeimlir â'i mab Mr Harvey Lewis, Bontnewydd ac â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Y SEINDORF — Ar Fehefin 30 'roedd y Seindorf yn bresennol yn Ffair Haf Llanrug a gynhaliwyd ym Mryn Bras tuag at Gronfa'r Eisteddfod. 'Roeddent yn brysur drwy fis Gorffennaf gyda charnifalau'r Felinheli, Penisarwaun ac Amlwch. Yna ar y 17 o Orffennaf cyflwynasant gyngerdd ar faes Caernarfon fel rhan o'r Wythnos Wyl. Ar y 21 o Orffennaf 'roedd ganddynt gyngerdd arall — yn Llandudno y tro hwn.

Fe fu Awst yn fis tra llwyddiannus i'r Seindorf. Fe enillasant y wobwr gyntaf yn Nosbarth C yn yr Eisteddfod ac ar ddiwedd yr un wythnos cawsant y frainc o fod ar lwyfan yr Eisteddfod unwaith yn rhagor ar noson y Gymanfa.

Ar Awst 11 aethant i Ddwyran i arwain gorymdaith y carnifal, ac ar y 17 'roeddent yng Nghaernarfon yn difyrru'r dorf oedd yn disgwyl y nofiwyr i'r lan o Sir Fôn yn ras y Fenai.

Daeth rhaglen yr Haf i ben gyda charnifal Porthmadog ar y 18 o Awst, a chyngerdd ar rodff Llandudno ar y 23 o Awst.

Eu nôd nesaf yw cystadleuaeth Whitchurch sydd yn digwydd ar y 15 o Fedi. A wnaiff unrhyw un sydd eisieu dod gyda'r Seindorf roi eu henwau i'r Ysgrifennydd, 2 Bryn Fedwen, Llanrug.

PLAID CYMRU TEYRNGED I GYN-AELOD

Ym marwolaeth Miss L.M. Hughes, Tanllwyd (Bryn Moelyn gynt) colodd y Plaid un o'i aelodion hynaf. Bu'n aelod o'r gangen bron o'r cychwyn. Credai yn angerddol mewn ymreolaeth i Gymru. Er bod ganddi lawer iawn o ddiddordebau ar wahan i'r Plaid, gellir dweud ei bod yn un o'r rhai oedd 'yn gwneud y pethau bychain' er mwyn yr iaith Gymraeg. Hi oedd ysgrifennydd Sefydliad y Merched a dechreuodd gadw'r cofnodion yn Gymraeg. 'Roedd yn barod iawn i gyfrannu yn hael er mwyn talu yn anrhydeddus i swyddogion llawn amser y Plaid. Ni fu i ysgrifennydd na thrysorydd wneud cais am gymorth gan Miss Hughes na chawsai atgyfnerthiad ysbryd o'r haelioni a chefnogaeth a deimlai wrth ddod o Fryn Moelyn.

Ond er cymaint y golled i'w Phlaid mae'n gymaint mwy i'w chwær Meirwen a'r teulu, ac ar ran cangen Llanrug anfonwn ein cydymdeimlad mwyaf diffuant â hwy yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl.

DIOLCH — Dymuna Mrs Nesta Pritchard Gllanfa ddiolch yn gynnes i bawb am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn yr Ysbyty ac ar ôl dod adref.

YR YSGOL FEITHRIN — Cyfarfu Pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiwedd Gorffennaf i ddewis athrawes a gweinyddes newydd. Penodwyd Mrs Nan Roberts, Ceunant a Mrs Roberta Griffiths, Llanrug i'r swyddi. Bydd yr Ysgol Feithrin yn ail agor ddydd Mawrth 11, o Fedi. Enwau i law yr athrawes neu'r weinyddes os gwelwch yn dda.

DIOLCH — Dymuna pwyllgor Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon a'r Cylch ddiolch yn ddiffuant i bwyllgor Llanrug a'r holl ardalwyr a fu'n gweithio mor galed ac a gyfranodd mor hael i sicrhau y nôd ariannol a osodwyd ar eu cyfer.

AR WERTH

Torrwr Gwair Trydan

Qualcast

£15.00

6 Bryn Eglwys
Penisarwaun

STERILISER POTEI

gan

Mothercare

Waunfawr 587

O'R GENEDLAETHOL



(Y llun drwy garedigrwydd y Deiniolen), Gwyn Parry ac Irfon Morris (Caernarfon & Denbigh Herald). . . y cwbl yn aelodau o'r Seindorf. Dyma Eifion Hughes, Hefin Jones, Eric Foster (Hyfforddwr Seindorf) Llongyfarchiadau iddynt am ddod yn ail yn y gystadleuaeth pedwarawd.

DOSBARTHIAU CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR YN ARDAL YR ECO 1979-80 CWMYGLO

Canllawiau Ysgrifennu Creadigol.
Nosweithiau Iau am 7.30 yn yr Ysgol Gynradd
10 darlith yn dechrau Medi 27.

Mrs Mary Hughes, B.A.
Tal: £2.50
Pensiynwyr: £1.50

DEINIOLEN

Agweddau ar Hanes Gwynedd.
Nosweithiau Mawrth am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd
10 darlith yn dechrau Medi 18.

Mr Rhodri Prys Jones, B.A.
Tal: £2.50
Pensiynwyr: £1.50

LLANBERIS

Byd Natur.
Nosweithiau Iau, ac eithrio'r bedwaredd yn y mis.
am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd
5 darlith yn dechrau Tachwedd 1.

Mrs Mary Vaughan Jones, B.Sc.
Tal: £1.25
Pensiynwyr: £1.00

Gwerthfawrogi Celfyddyd
(yn Saesneg)
Nosweithiau Llun am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd
20 cyfarfod, dechrau Hydref 1.

Mrs Barbara Mansel Owen, A.T.D.
Tal: £4.00
Pensiynwyr: £2.50

LLANRUG

Problemau Cymdeithasol a Gwleidyddol Cyfoes.
Nosweithiau Llun am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd.
20 darlith yn dechrau Medi 17.

Dr Cyril Parry
Tal: £4.00
Pensiynwyr: £2.50

PENYPASS (Llanberis)

Mwynfeydd copr a Phlwm yn Eryri
(yn Saesneg)
Nosweithiau Llun am 7.45 yn yr Hostel Ieuenctid
6 darlith yn dechrau Medi 17

Mr Gareth Davies, B.Sc.
Tal: £1.25
Pensiynwyr: £1.00

WAUNFAWR

Byd Natur.
Nosweithiau Iau am 7.15 yn yr Ysgol Gynradd.
6 darlith, Hydref 1, 8, 29; Tachwedd 12, 26
Rhagfyr 10.


Mr Arthur Vaughan Jones, B.Sc.
Tal: £1.25
Pensiynwyr: £1.00

Gwerthfawrogi Celfyddyd.
(yn Saesneg)
Nosweithiau Gwener am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd.
20 cyfarfod yn dechrau Medi 28.

Mrs Barbara Mansel Owen, A.T.D.
Tal: £4.00
Pensiynwyr: £2.50

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



**Bwsiau Arfon
LLANRUG**
FFÔN WAUNFAWR 254

AR WERTH

GWIALEN BYSGOTA PLU
GYDA RÎL

Cyflwr Da

£7.50

Ffon: Felinheli 670861

AR WERTH BEIC TOMAHAWK

i blentyn tua 8 oed

Cyflwr Da

BEIC

i blentyn 4-5 oed

Deiniolen

(Parhad)

DAU BENBLWYDD — 'Roedd Mr Emlyn Parry, 19 Pentre Helen, yn 73 oed ar Fehefin 1 eleni. Dim byd yn arbennig yn hynny medde' chi, ond 'roedd mam Mr Parry yn dathlu ei phenblwydd yn Ebrill yn 101 oed. Bu Mrs M.E. Parry yn brysur ofnadwy adeg y streic ym Methesda yn arwain côr a fu'n ddyfal hel arian i gynnal y gweithwyr segur. Oes yna rhywun yn ardal yr Eco neu hyd yn oed yng Nghymru gyda mab yn ei saithdegau? Byddai'n ddifyr cael gwybod. Penblwydd hapus i'r fam a'r mab.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr a Mrs Bobby Woodcock, Maes Gwylfa, ar ddathlu eu priodas Ruddem, ar Awst 7. Hefyd i Nicholas Thomas a Bryn Jones ar ennill eu medal 'Honours' am nofio ym maddonau Bangor yn ystod y mis diwethaf.

I Wendy Wyn Jones, Deiniol House, Y Stryd Fawr am lwyddo yn ei harholiad piano gradd 1, y Royal School of Music. Mae'n ddîsgybl i Miss Clarise Williams, Llanberis.

I Mrs Jane Williams, 13 Tai Marian a ddathlodd ei phenblwydd yn 95 oed yn ddiweddar.

PRIODAS — Ar Orffennaf 28 priodwyd Douglas, mab Mrs J. Jones a'r diweddar Mr J.H. Jones, 30 Hafod Olau ag Ann, merch Mr a Mrs Owen 10 Bro Fedw, Porthaethwy. Gweinyddwyd ar y briodferch gan ei chwaer Gwyneth ac ar y priodfab gan ei frawd Alex. Y ddwy weinyddes fach oedd Miss Susan Jones a Theresa Owen. Cyflwynwyd pedolau lwcus gan Anwen, Mark, Neville, David, John, Susan, Theresa a Paul. Mwynhawyd gwledd briodas yn y 'Marquis Inn', Bangor a threuliodd y mis mē yn Blackpool.

MARWOLAETHAU — Cydymdeimlwn yn fawr â'r teuluoedd a ganlyn ar golli ohonynt annwyliaid yn ystod yr wythnosau diweddar. Mri John ac Edwin Evans, Tan y Foel ar golli priod a mam, Mrs Mair Davies, Ieuan ac Alan, Pen y Bont ar golli priod a thad, Mrs R.H. Jones, Clwtybont ar golli ei brawd yn Sir Fôn, Eddie a Ken Saynor ar golli eu mam yng Nghaernarfon, Gwilym Lloyd Williams Tai Victoria ar golli mam a Mrs Mary Hughes, Rhydfadog ar golli ei chwaer.



Aelodau o Seindorf Deiniolen yn croesawu Sian Wyn Jones, 1 Pentre Helen ac Eifion Wyn Hughes, 31 Maes Padarn, Llanberis (sydd yn aelod o'r Seindorf) ar ôl eu priodas yng Nghapel Cefn Waun.

O'R GENEDLAETHOL



Parti Deiniolen a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth Côr Adrodd dan 18 oed gyda'u hyfforddwraig Mrs Mary W. Jones. Nid oedd 2 aelod, sef Iola Llewelyn a Marina Marzellos yn bresennol pan dynnwyd y llun.



Rhian Owen, Llanberis, ddaeth yn ail yn yr Unawd dan 15.



Mary Wyn Jones, Deiniolen, ddaeth yn drydedd am Adrodd dros 25 oed.

Llyfrau

Daeth nifer go dda o lyfrau Cymraeg allan o'r Gweisg cyn yr Eisteddfod. Dim ond y Lolfa a Chyhoeddiadau Mei yrrodd ddeunydd i gael ei adolygu ac i dderbyn cyhoeddusrwydd yn yr Eco. Derbynnir nifer o lyfrau o'r Lolfa a Chyhoeddiadau Mei yn gyson ac mae'n bleser gan yr Eco roddi sylw iddynt. Onid yw'n bryd i'r Cyhoeddwy'r eraill yng Nghymru ddeffro a sylweddoli bod yr Eco a'i fath yn cyrraedd yr union aelwydydd lle y dylai cyhoeddwy'r ymdrechu eu cyrraedd. Pob lwc i'r Lolfa a Chyhoeddiadau Mei — maent ar y trywydd iawn.

DAU LYGAD DU —

Eirwen Gwynn.

Mae rhywun yn cysylltu enw y Dr Eirwen Gwynn â channoedd o erthyglau ar bynciau gwyddonol. O'r diwedd dyma ddawn greadigol yr awdures yn cael ei ddangos yn y casgliad hwn. Fe gofiwch i Eirwen Gwynn ennill y wobr gyntaf am ddrama deledu gan y BBC ym 1970, ac ennill ar y Stori Fer yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam. Mae testunau'r storiâu a'r ysgrifau hyn yn amrywio. Cynnwys deunydd ar ryw a phriodas, byd teledu, ffermio tyddyn, teithiau, cyfarfyddiadau a phersonnau arbennig, ofnau, lliwiau, cathod, ffasiwn, beth yw cof, a oes trefn, a oes Trefnydd
Pris £1.35. Pcedlyfrau'r Lolfa.

NOSON WOBRWYO

Heini Gruffydd.

" 'Roedd llenorion pwysicaf y wlad wedi dod i Noson Wobrwyd flynyddol Awdurdod Diwylliant Cymru. Ond daeth un i'w wobrolaf ..."
Pris £1.60. Pcedlyfrau'r Lolfa.

MAE TEITHIO'N AGOR Y MEDDWL — Gwyn Edwards

Un o lyfrau'r Cyfres y Beirdd Answyddogol gan y Lolfa.
Pris 75c. Y Lolfa.

ENGLYNION PIWS

Yn ôl Robat Gruffydd Y Lolfa gwerthwyd pob un o'r 4,500 copi o'r Englynion Coch a gyhoeddwyd ym 1973. Dyma gyfle i chwi ddarllenwyr yr Eco i brynu yn slei bach gyfuniad o'r Englynion Coch a rhai glas ac yna ei guddio'n saff ar y silff rhwng llyfrau ychydig mwy parchus. Rhybuddir nad yw'r llyfr hwn yn addas i neb dan 18 oed. (Ffordd eithriadol o glyfar i gael plant dan 18 oed a phlant dros 18 oed i'w prynu).

Pris 75c. Y Lolfa.

LLOND CEG O LWC'. Horst Biernath. Trosiad: John Elwyn Jones.

Llyfr wedi ei gyhoeddi ar gyfer Llyfrgelloedd yn unig.

Cambrian News Cyf. Aberystwyth

Y LLEWOD MEWN CARCHAR Dafydd Parri.

Yr 21 stori yn y gyfres anhygoel yma.

Pris 85c. Lolfa.

TAI BWYTA CYMRU

Eluned Rowlands.

Cyfeirlyfr i dai bwyta ein gwlad. Llyfr defnyddiol a difyr a fydd yn ychwanegu'n fawr at fwynhad eich noson neu benwythnos allan.
Pris £1.45. Lolfa.

ORIAU DIFYR

Alice Miriam

Llyfr o bosau i blant bach.

Pris 85c. Cyhoeddiadau Mei.

STORIAU'R HEN BOBL

Jocs anifeiliaid a gasglwyd gan y digrifwr a'r darlledwr Hywel Gwynfryn. Llond bol o chwerthin am bris rhesymol iawn.

Pris 50c. Cyhoeddiadau Mei.

CYMRU A'R BYD MODERN ERS 1918 — Emyr Price.

Gwerslyfr yn llawn o wybodaeth ffeithiol gan awdur o Fethel. Paratowyd y llyfr hwn yn bennaf ar gyfer disgyblion sy'n astudio cyrsiau Hanes 'O' a chwrs 'A' Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru. Peidied neb â chael ei gamarwain gyda bwriad pennaf y llyfr — mae'n lyfr yn hynod hwylus i'w gael yn y tŷ, yn enwedig i'r rhai hynny sy'n ymddiddori yn hanes y genedl.

Pris £4 Gwasg Prifysgol Cymru.

YN EISIAU

Hen Lyfrau Cymraeg

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

WAUNFAWR



GWIBDAITH — Dyma'r plant yn cael seibiant oddi wrth yr anifeiliaid a'r adar yng Nghae Ddafydd, Nantmor, i gael tynnu eu llun, pan aethont am drip yno y bore olaf o dymor yr haf. Cawsant amser difyr iawn.

Mae'r plant a'r athrawes, Mrs Irene Roberts, i'w llongyfarch ar waith bendigedig a wnaethpwyd ar gyfer 'Ben y Garddwr' cyfraniad Cylch Waunfawr i'r arddangosfa yn y Babell Feithrin ar Faes yr Eisteddfod. Enillodd y babell Tlws Sefydliad y Merched am y babell orau ar y maes.

GORSEDD Y BEIRDD — 'Roedd cysylltiadau agos â'r Waunfawr yn seremonïau'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol, Caernarfon eleni. Miss Anwen Jones, merch Mr Leslie Jones, Prifathro'r Ysgol Gynradd oedd yn cyflwyno'r Flodeued i'r Archdderwydd a Lesley Ann Halliday, Noddfa, Llandwrog Uchaf, oedd un o'r llawforynion — mae Julia Roberts, 1 Ael y Bryn, Waunfawr yn fodryb i Lesley.

GENEDIGAETHAU — Llongyfarchiadau i Heulwen ac Alfie Jones, Cynrant Lodge ar enedigaeith mab Gerallt Arfon brawd i Delyth.

Hefyd i Grace a Cyril Williams ar enedigaeith merch Llinos Haf, chwaer i Alwyn a Meirion.

Hefyd i Mr a Mrs Williams, 5 Dol Erddi ganwyd mab, Marc ac i Mr a Mrs Jones, Minffordd, ganwyd merch.

O'R YSBYTY — Croeso adref i Miss C.E. Jones, Tref Eilian, Mr Eric Jones, Tref Eilian, Mr J.H. Jones, y Garn, Mr Idris Humphreys, Arwelfa, Miss Nesta Griffiths, Eirianallt a Mr. Allen, 8 Dol Erddi. Dymunir adferiad buan iddynt i gyd.

LLWYDDIANT YN Y 'STEDDFOD — Llongyfarchiadau i Hefin Jones, Glyn Afon Isaf ar ennill yr ail wobwr ar yr unawd tenor yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhodri Prys Jones am ddod yn ail am 'sgrifennu stori bywyd unrhyw gymeriad diddorol.



Rhodri Prys Jones, Waunfawr.

MERCHED Y WAWR — Bydd cyfarfod Agoriadol y Tymor yn cael ei gynnal

yn yr ysgol am 7.30 nos iau, Medi'r 27. Bydd Mr a Mrs T.H. Williams, Drws y Coed yno i'n diddori. Croeso cynnes i aelodau newydd.

DEISEB — Mae deiseb ag arni dros gant o enwau wedi ei chyflwyno i gynghorydd lleol Waunfawr; i'r cyngor cymuned lleol ac i lywodraethwyr yr ysgol, yn pwysu arnynt i symud ymlaen gyda'r cynlluniau a benderfynwyd arnynt dros flwyddyn yn ôl, i ddarparu cae chwarae, a chae pêdroed addas i blant y pentref. Mae'r ddeiseb yn sôn mor hynod beryglus yw'r caeau presennol, ac yn pwysleisio'r ffaith fod angen glynau at addewid a wnaed gan y cyngor lleol.

Mae'r ddeiseb wedi ei harwddo gan hen ac ifainc fel ei gilydd, ac yn gofyn i'r cynghorydd, y cyngor a'r llywodraethwyr i roi sylw brys i'r mater

YR YSGOL FEITHRIN — Gwahoddir rhieni gyda phlant i fyny i ddwy flwydd oed i ddod i gyfarfod cyntaf yr Ysgol Feithrin am 1979/80 yn Ffestri Croesywaun ar Fedi 11 rhwng 10-11 y bore pryd y darperir coffi a bisgedi. Mawr obeiithir y bydd rhieni di-Gymraeg yn ogystal a Chymraeg yn manteisio ar y gwahoddiad.

CROESO'N OL — I Mr Hugh O. Jones, Pantafon, fu'n gweithio cyn ymddeol ym Minehead, Belfast a Chasnewydd a Mr Humphrey Jones, Pantafon yn awr o Ohio, a adawodd y Waun ym 1913 — a'i gerddi am y pentref yn y Cymru Coch 1911.

Bu Mr a Mrs Robert Williams o New York yn aros gyda Mr a Mrs Morgan Lewis, Pant Cae Haidd.

LLONGYFARCHIADAU — I Gwenno Owen, 18 Tref Eilian ar ei ddyweddïad gydag Arwel Lloyd o Benygroes.

I Alun Cotton, Brynhyfryd ar ei ddyweddïad â Felicity Adam o Paignton, De Ddyfnaint.

I Catrin Roberts, Bodafon ar ei phriodas ag Eurwyn Thomas, o Benygroes. Dymunwn bob hapusrwydd i'r tri chwpwl.

Llongyfarchiadau hefyd i Ronald Wyn Hughes, 11 Ael y Bryn ar ennill ei radd yng nholwg Politechneg Lerpwl, i Michael Wyn Jones ar ennill cwpan 1979 yng Nghlwb Rygbi Caernarfon, i Avril Ann Charge, Lliffon, am ennill cystadleuaeth pwy yw'r berta i blant, yn ystod ei gwyliau yn Scarborough, i Ann Llewelyn Griffiths, Eirianallt ar gyrraedd ei phenblwydd yn ddeunaw oed.

MARWOLAETH — Yn sydyn yn ei chartref, Blaen Ffridd bu farw Mrs Mary Williams gweddw John Williams a mam Dilys, Olwen, Robin a John. Cydymdeimlir â'r teulu oll.

Cydymdeimlir hefyd â Mr Dafydd Davies, 20 Tref Eilian ar golli ei dad; Mrs Mary Slaven, Moelwyn ar golli ei brawd; a Mr William Lloyd Hughes, Gwastad Faes ar golli ei chwaer; Mrs Hughes Llws Meredydd ar golli ei chwaer; Mr David Beech, Ffrwd Win ar golli ei fam, a Mrs Griffiths, Bronallt ar golli ei chwaer.

CARNIFAL — Agorwyd gweithgareddau'r wythnos gyda chymanfa ganu llwyddiannus yng Nghapel Croesywaun, dan arweiniad Mr Elwyn Jones, Llanbedrog.

Nos iau, gwenodd yr haul ar y peldroedwyr heini a'u gemau pump bob ochr. Gydag un ar bymtheg o dimau dan ofal Gareth Jones a'r dyfarnwr Ifor Ellis; tim hogiau Bod Hyfryd a orfu. Diolchir i Mr Ifor Ellis am ei wasanaeth yn rhad ac am ddim.

Nos Wener coronwyd y Frenhines Heather Wyn Jones gan Sandra Roscoe y frenhines y llynedd, yn neuadd yr eglwys. Cyfarchwyd y frenhines gyda dawns a chân, a diolchir eto eleni i Mr T.H. Williams, Drws-y-Nant, am

gyfansoddi'r geiriau.

Wedi gwleda ar hufen iâ, creision ac oren, difyrwyd y plant gan Edwin a Cochyn. Enillwyd y raffl (bocs nwyddau) gan Mrs Iona Williams, Cae Gwydryn.

Arweiniwyd yr orymdaith ddydd Sadwrn gan Majorettes Llanrug.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar i Mrs Thomas ac i deulu Weirglodd Fawr am eu cymwynasgarwch yn flynyddol.

Wedi arddangosfa o ddawnsio gan y Majorettes, beirniadwyd y gwisgoedd ffansi gan Gari Williams (Eli Babi), a diolchir iddo yntau am ei wasanaeth didal.

Dyma enillwyr y wsg ffansi:
Dan 4: 1. Elaine, Elin a Meilir. Dan 6: 1. Bethan, 2. Neil, 3. Mandy. Dan 8:

1. Wayne, 2. Nan Wyn, 3. Karen, Sian, Telor, Euros. Dan 11: 1. Kevin, 2. Iwan, 3. Elliw. Dan 14: 1. Kevin Parry, 2. Gerallt Rowlands. Addurno beic: Dylan. Addurno pram: 1. Lynne, 2. Carys Owen. Grŵp: Kevin a Gerald.

Enillwyr y raffl oedd: Record (Rhoddedig gan Gari Williams), Tom Williams, Coed Gwydryn, ond rhoddwyd hi ar ocsiwn a'r prynwr oedd Michael Williams, 2. potel sleri, Iris Hughes, 3. bocs siocled, Olwen Williams, a rhoddodd hithau'r bocs ar ocsiwn a phrynwyd ef gan Rhian Ellis. Dyfalwyd penblwydd y ddol gan Carys Owen.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth ac am y llur rhoddion a dderbyniwyd.



Y frenhines Heather a phlant Dawns y Blodau.

NANT PERIS

YSBYTY — Da oedd clywed bod Mrs Eluned Owen, 8 Nant Ffynnon, Mr Tecwyn Griffith, 6 Glanrafon a Mr Rutherford y Llythyrdy gartref o'r ysbty. Hyderwn eu bod i gyd yn gwella'n ddyddiol. Clywsom fod Mr Elwyn Evans, 6 Bro Glyder a dau arall sydd â chysylltiad agos â'r Nant, sef Mr Arthur Roberts (Gwyndy gynt) a Nia, merch Mr a Mrs Jones, Llanllyfni (Bronallt gynt) yn yr ysbty. Dymunwn adferiad buan a llwyr iddynt.

MARWOLAETH — Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Mr William John Williams, Tanybryn. Un o chwaelwyr y fro ydoedd cyn ei ymddeoliad a mawr fydd y golled i'r teulu ac i'r ardal. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Brenda Roberts, Ystrad, ar farwolaeth ei thad yn Rhiwlas.

CARNIFAL — Cynhaliwyd Carnifal blynyddol y pentref, nos Wener, Gorffennaf 27 yng nghae Ty Isaf. Buom yn ffodus iawn yn y tywydd a

chafwyd noson o hwyl fel arfer. Gresyn bod cyn lleied o ddŵr yn yr afon ar gyfer y "tug of war". Gwnaethpwyd elw o £52.00. Diolchwn i bawb am y rhoddion, y teisennau, i'r rhai fu'n gweithio ar y maes, ac i'r rhai fu'n trefnu'r gweithgareddau.

LLONGYFARCHIADAU — i Sian, Llws Awel ar ei llwyddiant mewn arholiad chwarae'r piano ac i 'Mab o'r Nant' — Mr Ieuan Roberts, (Ty'n y Coed gynt) a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon. Cyfansoddodd gân i unrhyw lais. Gosodiad o 'Gerdd yr Hen Chwaelwr' gan W.J. Griffith. Cafodd feirniadaeth ardderchog, fe ddywed y beirniad fod Mab y Nant yn hawlio cymeradwyaeth uchel.

CWCH YN LLYN PERIS — Yn ystod y dyddiau diwethaf clywsom fod cwch hen iawn wedi ei ddarganfod yn Llyn Peris. Tybed mai cwch Marged fwyn uch ifan ydyw? Diddorol cael clywed mwy am y darganfyddiad.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

Dyddiadur y Mis

MEDI 2, Sul: LLANBERIS: 'Canu Mawl' yn Eglwys Sant Padarn am 8.30 pm.
3, Llun: LLANBERIS: Clwb Methodig Eryri.
7, Gwener: LLANBERIS: Te bach yr Henoed. WAUNFAWR: Capel Croesywaun - Noson Goffi a Byrddau Gwerthu am 6.30.
8, Sadwrn: LLANRUG: Trip Ysgol Sul Capel Mawr. DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched - Taith Ddirgel.
9, Sul: DEINIOLLEN: Cyrddau Pregethu yn Eglwys Libanus (B). Y Pregethuwr gwadd fydd y Parch. Raymond Williams, BA, BD Caerdydd.
11, Mawrth: LLANRUG: Cyfarfod agoriadol Merched y Wawr.
12, Mercher: LLANBERIS: Y Cwmni Drama yn Ffestri Preswylfa yn brydlon am 7.00.
15, Sadwrn: LLANBERIS: Sefydliad y Merched - gwibdaith i Landudno. LLANRUG: Sioe Gwnignod yn Ysgol Glanmoelyn am 1.30.
17, Llun: LLANRUG: Dosbarth nos WEA "Problemau Cymdeithasol a Gwleidyddol Cyfoes" gyda Dr Cyril

Parry yn yr Ysgol Gynradd am 7.00
PEN Y PASS: Dosbarth nos WEA 'Mwynfeydd Copr a Phlwm yn Eryri' gyda Mr Gareth Daveis B.Sc. yn yr Hostel am 7.45.
18, Mawrth: DEINIOLLEN: Dosbarth nos WEA 'Agweddau ar Hanes Gwynedd' gyda Mr Rhodri Prys Jones, BA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
19, Mercher: CWM-Y-GLO: Merched y Wawr.
22, Sadwrn: LLANBERIS: Cystadleuaeth Bysgota dan nawdd y Carnifal o 10am hyd 6pm ar Lyn Padarn.
24, Llun: LLANRUG: Dosbarth Nos WEA am 7.00. PEN Y PASS: Dosbarth nos WEA am 7.45.
25, Mawrth: DEINIOLLEN: Dosbarth nos WEA am 7.00.
27, Iau: LLANRUG: Undeb y Mamau CWM-Y-GLO: Dosbarth nos WEA 'Canllawiau Ysgrifennu Creadigol' gyda Mrs Mary Hughes, BA yn yr Ysgol Gynradd am 7.30. WAUNFAWR: Merched y Wawr - cyfarfod agoriadol yn yr ysgol am 7.30.
28, Gwener: WAUNFAWR: Dosbarth nos WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' gyda Mrs Barbara Mansel Owen ATD yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.

DYDDIADAU I'W COFIO

Hydref 7: Disgo i blant dan 12 oed yn y Neuadd, Bethel am 6.30. Elw at yr Ysgol Feithrin.
Hydref 10: Noson Goffi a Byrddau Gwerthu yn Ysgol Brynrefail. Yr elw i Gronfa'r Ysgol.
Tachwedd 21: Prawn a nos - Eisteddfod Ysgol Brynrefail.

O'R GENEDLAETHOL



Clychau'r Grug, parti o Lanrug a'r Cylch dan arweniad Mrs N. Lovatt. 'Roeddynt mewn dwy gystadleuaeth. Ni chawsant lwyfan yng nghystadleuaeth can werin ond 'roedd eu cyflwyniad 'ar lafar ac ar gân' o lwyfan y brifwyl yn destun canmoliaeth uchel. Ers yr Eisteddfod maent wedi cadw cyngerdd ym Mynytho ac yng Nghwesty'r Fictoria, Llanberis.

'Parhad o dudalen 9'

Byddwn yn cael cyfle i grwydro llawer ynglŷn â fy ngwaith ar hyd a lled y chwarel, ac weithiau cyn belled ag Aberdaron. Rhai garw am sgramio oedd yr hogia yno. Y badell ffrio allan amser cinio yn y barics ac aer ysgafn pen y mynydd yn agor ein stumogau ni'n ieuainc yr adeg honno, ac yn mwynhau brechdan y tun bwyd, ond gwell fyth fyddai cael rhoi'r frechdan yn saim y badell ffrio. Hen griw iawn oedd hogia Môn - chwain neu beidio. Coffa da am yr hen amser. Cyfnod caled meddwch - ond hapus iawn yn eu ffordd eu hunain. Bu llawer tro ar fyd, a thueddu i edrych yn ôl y byddwn.

Ymwelodd dyn â'r amgueddfa'n ddiweddar; yn byw yn Lloegr ar hyn o bryd. Wedi cerdded i'r Drenewydd i weld ei hen gartref - Rhif 19 - yn ddi-do erbyn hyn a'r coed yn tyfu trwy'r corn simdde, ac yntau'n cydnabod yn ddi-ddfuant wrth sefyll ar garreg y drws fod lwmp yn ei wddw a deigr yn yn ei lygaid, ac meddai, wrth ddweud yr hanes - "Hen amser braf." A gallwn ddweud am y lle-oedd hyn hefyd - 'Mieri lle bu mawredd'.

Beth am fynd i fynyr Llwybr Main, neu'r 'sig-sag' fel yr adnabyddir ef? Wedi ei wneud yn gul, a dwy wal uchel o bob ochr yn gysgod i chwarelwyr Llanberis fynd at eu gwaith, ac yn wir i

drigolion Dinorwig ddod i Lanberis i siopa, a chael golwg ar y Drenewydd a chadw mewn cof fod dynion Môn ac eraill wedi treulio blynyddoedd lawer yn y lle hwn - mwy o amser, mae'n debyg nag yn eu cartrefi gyda'u teulu. Er bod y byw yn galed, y pres poced yn ddigon prin, treulio'r gyda'r nosau yn creu difyrwch iddynt eu hunain, ac ni chafodd plismyn Llanberis na phlismyn y chwarel fawr o drafferth erioed efo hogia'r barics.

Hwyrach y bydd yr ychydig sylwadau hyn yn sbardyn i rywun ddwyn i gof rai o ddigwyddiadau'r barics a'u hanfon i'r 'Eco'. Buasent yn ddiddorol iawn i'w cael.

H.R. Jones.

I RIENI

Os ydych yn byw yn agos i ddwy filltir oddi wrth ysgol eich plentyn, efallai i chi dderbyn llythyr yn egluro'r sefyllfa ynglŷn a chludiant i ac o'r ysgol o'r 1af Medi 1979. Mae'r llythyr, dyddiedig 9ed Awst 1979 ar bapur melyn.

Tynnwyd sylw'r Eo at baragraff yn y llythyr sy'n hysbysu esboniad. "Gofidiaf fod eich plentyn/plant chi yn cael ei effeithio gan y penderfyniad hwn", sef y cynigiad ar y "chludiant am ddim yn ôl ac ymlaen o'r ysgol", ac na fydd y Cyngor yn gallu cynnig chludiant am ddim yn ôl ac ymlaen o'r ysgol fel o'r 1 Medi 1979".

Y geiriau "am ddim" sy'n pery'r cymhlethdod. Caiff dyn yr argraff fod gwasaneth oludo i'w gael - ond bod rhaid talu amdano. O holi Mr Penri Edwards o'r Swyddfa Rhanbarth dylid hepgor y geiriau "am ddim" a'r gwir ydyw, na fydd gwasaneth oludo ar gael.


Pwysleiswn felly, os ydych wedi derbyn llythyr ar bapur MELYN cofiwch nad yw'r Cyngor Sir yn darparu chludiant i ac o'r ysgol ar gyfer eich plant o Fedi 1979.

DAMWAIN

Brawychwyd trigolion bro Eo'r Wyddfa a'r newydd trist am y ddamwain alaethus i Gwilym Ellis. Yr oedd Gwilym yn enedigol o Kant Peris yn Wyr i Eiddirfab ac o linach y Glosiaid. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'i briod, ei fab Ieuan, ei chwaer Jennie M. Jones Llanberis, â'i frawd Perisfab a'r teulu oll yn eu colled a'u hiraeth.

- Golygydd.

CROESAIR 33



AR DRAWS

1. Haws . . . na gwneud (5).
5. Perthynas (5)
8. Cyffrous neu oerlyd (5)
9. Tir gwlyb neu ddiffaith (5)
10. " . . . Don" (5)
11. Symudiad gyda cherddoriaeth (5)
12. Rhif (2)
13. Anhrefn (7)
17. Daw peth o hwn o Fôr y Gogledd (3)
18. Pysgodyn (3)
20. Digwyddiad y flwyddyn ar yr Wyddfa (3, 4)
24. Diod (2)
26. Un yn byw y tu allan i'w wlad (5)
27. Celwyddog (5)
28. Gwlad (5)
29. Peth sy'n harddu (5)
30. Gwisgoedd (5)
31. Map (5)

I LAWR

1. "Beth yw'r ots gennyf i am Gymru. . . . a hap yw fy mod yn ei libart yn byw" (7)
2. Dysgwyr (8)
3. "Hel a didol . . . Yw camp hwn yn y cwm pell" (6)
4. Sylwedd caled y corff (6)
5. Dymunol neu chwaethus (6)
6. Rhwystro (4)
7. " . . . ac ysgall mall a'i medd, Mieri lle bu mawredd." (5)
14. Offeryn ! (3)
15. Draw (3)
16. Disg ragorol (6, 2.)
19. Dogfen yn rhoi hawl (7)
21. Llefaru (6)
22. Dyrys (6)
23. Llysieuyn (6)
24. Llwm (5)
25. Tywyllwch (4)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren: CH, DD, FF, NG, LL, PH, RH, TH.

ATEBION CROESAIR 32

AR DRAWS: (1) Papur (3) Tel-edu. (7) Dur (8) Ochr. (9) Tafodau. (11) Hanes. (13) Diddan. (15) Eog. (17) Nythu. (20) Acer. (21) Truenus. (22) Olaf. (24) Diog (27) Uno. (29) Anial. (30) Blawd. (33) Dadroddi. (34) Ffon. (35) Dig. (36) Buddiol. (37) Pedol.

I LAWR: (1) Perffaith. (2) Proffes (4) Lefain. (5) Didranc. (6) Udo. (10) Us. (12) Goleuni. (14) Union (16) Arogl. (18) Bro. (19) Pur. (23) Adnodau. (25) Iawndal. (26) Parodi. (28) Planed. (31) Od. (32) Egr.

Enillydd Croesair 32:

Alwyn Jones,
Racca Cottage,
Penisarwaun.

CHWARAEON

ARWR Y CLWB SNWCER

Arwydd o wastraffu ieuenctid, yn ôl traddodiad, yw medrusrwydd ar y bwrdd Snwcer, ac os gwir y gosodiad, yna mae Clive Griffith, Pant Tirion, Llanrug wedi gwastraffu cyfran helaeth o'i ddeunaw mlynedd. Ef, yn ôl tystiolaeth y rhai sy'n deall y lliain gwyrdd, yw'r 'prospect' gorau a welwyd yn yr ardal ers llawer dydd.

Er hynny, nid oes ond pedair blynedd a hanner ers pan afaelodd mewn pren snwcer am y tro cyntaf erioed yng nghlwb Llanrug, ac yn y cyfamser llwyddodd mewn arholiadau'r ysgol a'r City and Guild yng Ngholeg Technegol Bangor a Wrecsam. Bellach mae'n blymwr priofadol yn gweithio gyda'i dad. 'Does dim arwydd fod hwn, beth bynnag, wedi gwastraffu fawr o'i amser.



'Roedd yn amlwg o'r dechrau fod gallu snwcer arbennig ganddo, a gyda chymorth ei dad, a rhai o chwaraewyr mwyaf priofadol y Clwb, daeth yr hunan hyder iddo sy'n gwbl angenrheidiol i chwaraewr da. Fe'i dewiswyd i gynrychioli'r Clwb yn nhim y Gynghrair ar ôl chwarae am lai na blwyddyn, ac fe'i cynorthwyodd i ddringo o'r ail adran i fod yn un o dimau gorau'r adran gyntaf.

Ymhlith y tlysau mae'n eu trysori yn ei gartref mae pedair tarian sy'n tystio mai ef oedd enillydd Cystadleuaeth Handicap Nadolig y Clwb bedair gwaith yn y bum mlynedd diwethaf. Mewn gem gyfeillgar er hynny, yn erbyn un o hogia'r pentre daeth yr elfen o lwc iddo a'i dygodd i sylw un o'r ychydig rai yng Ngogledd Cymru sydd â'r wybodaeth

ganddo i ddwyn ei allu i lawn ffrwyth. Gwnaeth frêc o 91 pwynt, sydd fel y gwyr pawb sy'n chwarae neu'n gwyllo'r gem yn gamp arbennig iawn. Dyma'r brêc fwyaf a wnaed yn y Clwb erioed, a rhywsut neu'i gilydd daeth Mr Bob Humphreys, Hyfforddwr Snwcer o Landudno i glywed amdano. Daeth draw i weld drosto'i hun ac yn fuan iawn sylweddolodd fod yma wir ddawn y gellid ei meithrin. Bu'n ymweld â'r Clwb droeon yn y misoedd a ddilynodd, gan hyfforddi Clive a dau neu dri o'r ieuenctid addawol eraill sy'n aelodau yno. O'r diwedd penderfynodd fod Clive, a Keith Francis Jones, hefyd o Lanrug yn ddigon aeddfed i ymgeisio am Bencampwriaeth Prydain i rai dan 19 oed ym Mlactpool. Ni ddaeth llwyddiant i'r un o'r ddau, ond bu'r profiad yn dra gwerthfawr. Yn ddiweddarach fe'i dewiswyd i gynrychioli Gogledd Cymru yn rowndiau rhagbrofol y Tlws Dowsing yn Lerpwl a llwyddodd, nid yn unig i ennill ei ffordd i'r gemau terfynol yn Stoke on Trent ond i ddod a'r Tlws adref i'r Cwprdd Gwydr ym Mhant Tirion. Dyma ei lwyddiant pwysicaf hyd yma, ond nid, mi gredaf, y mwyaf cofiadwy iddo.

Rhyw ddwy flynedd yn ôl treuliodd y teulu eu gwyliau yng



Clive yn ysgwyd llaw a Graham Miles.

Ngwersyll Warren ym Mhortsmouth, a phwy feddylie' chwi enillodd y Gystadleuaeth Handicap yna? Ie, Clive wrth gwrs, a rhan o'i wobwr oedd cael chwarae mewn gem arddangos yn erbyn Graham Miles, un o bencampwyr yr holl fyd ac un sy'n gyfarwydd iawn i bawb fu'n gwyllo *Pot Black* a chystadlaethau tebyg ar y teledu. Byddai'n hyfryd cael dweud bod Clive wedi ei guro, ond nid felly y bu. Cafodd y ffrwyth, er hynny, o rannu bwrdd am hanner awr, ag un o chwaraewyr mwyaf poblogaidd y gem.

Beth sydd o'i flaen tybed? A fydd chwaraewr proffesiynol un dydd â'i wreiddiau yn Llanrug? Yn sicr mae dawn arbennig iawn ganddo, — bûm yn chwarae fy hun ers dros chwarter canrif ac

ni welais frêc yn agos i 91 pwynt erioed yr ochr yma i'r sgrin deledu. Mae'r Cymry'n amlwg ym mhencampwriaethau'r gem, Reardon, Mountjoy, Griffiths, 'sgwn i os oes Griffith arall i'w ychwanegu atynt.

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae cwpwrdd gwydr Pant Tirion yn llawn o dlysau, ond nid tystion i allu Clive ar y bwrdd snwcer yw'r drydedd ran ohonynt. Mae un neu ddwy yn profi ei fod hefyd yn gricedwr o fri, ond byw yng nghysgod ei dad y bydd ar y cae criced.

Gwilym Griffiths, y plymwr yw'r tad, ac aiff ei dlysau criced a dartiau ef â llawer iawn mwy o ofod na rhai ei fab. Gobeithiaf neilltuo gofod ar ei gyfer ar dudalen ôl yr Eco yn y dyfodol agos.

PÊL-DROED

LLANBERIS

Mae hogia Llanberis wedi darganfod y rhwyd 13 o weithiau yn eu tair gem gyntaf, a daeth pum pwynt iddynt hwythau.

3-1 oedd y sgôr yn erbyn y Felinheli, a sgoriwyd 9 heb ateb yn erbyn Nefyn.

Gwilym Williams, eu golgeidwad yw'r rhelower eleni a bydd Dic Parry, athro ymarfer corff Ysgol Brynrefail, John Wyn Roberts, Ken Lewis a Peter Jones yn wynebau newydd yn eu carfan. Selwyn Allsup yw'r Capten ac mae'r canlynol oll wedi arwyddo: Iwan Evans, G.W. Williams, Einion a Phill Holland, R. Harding, K. Jones, H. Griffiths, K. Davies, P. Evison, J. Pritchard a J. Ryan.

LLANRUG 1 LLANBERIS 1

Gwynt cryf yn difetha'r hanner cyntaf a Llanberis agosaf i sgorio. 'Roedd yr ail hanner yn gyflym a chyffrous â'r llaw uchaf o ychydig gan Lanrug.

Torri o'r amddiffynfa'n gyflym oedd hoff dacteg Llanber a bu bron i hyn lwyddo fwy nag unwaith. Llanrug a sgoriodd gyntaf er hynny, Vernon Lloyd yn troi i ganol y cae o'r asgell ac yn codi'r bel yn daclus i'r rhwyd dros ben y golgeidwad.

Daeth Llanberis yn ol yn ddygn a daeth cyfle iddynt ddod yn gyfartal o'r smotyn gwyn. Kelvin Jones yn cicio, ond golgeidwad Llanrug yn ei dal. Bu'n rhaid ei hail gynnig gan fod un o chwaraewyr Llanrug yn sefyll yn y boc — ni wnaeth Ray Harding yr un camgymeriad a'r ail-gynnig, 'doedd dan y golgeidwad ddim siawns.

Rhoes y gol hon ynni newydd yn nhim Llanberis ac am gyfnod bu amddiffynfa Llanrug yn brys dros ben. Er hynny, 'roedd gol yr un a phwynt yr un yn adlewyrchiad teg o'r chwarae a chysidro'r gem yn ei chyfarwydd. Gresyn i bethau or-boethi ar adegau, gydag ambell i wrthdrawiad ffyrnig rhwng rhai o'r chwaraewyr a dueddai i beri i rai o'r gwylwyr ddiffasu ar y gem.

Yn sicr, bydd y ddau dim yn ymladd unwaith eto am y tlysau ddiwedd y tymor. Ai hon fydd trydedd pencampwriaeth Llanrug yn olynol, yntau fydd Llanberis yn llwyddo i'w disodli y tro hwn? Yn sicr, mae tymor cyffrous o'n blaenau.

PÊL-DROED

LLANRUG

Dechrau digalon i'r tymor — colli tarian Marconi i Deigrod Porthaethwy o 3 gôl i 1 yn Llanrug.

Daeth pum pwynt, er hynny, o'r dair gem gynghrair gyntaf, curo Harlech o dair gôl i ddwy a Phorthmadog o un i ddim. Y Gem gyfartal yn erbyn Llanberis oedd y drydedd.

Mae tri wyneb newydd yn y tim eleni, sef y Golgeidwad, Gareth Isfryn Hughes, Dafydd Jones brodor o Lanrug ond yn byw yng Nghaernarfon bellach a Hefin Pritchard, wedi ail ymuno ar ôl dau dymor o alltudiaeth. H. Hughes, A.V. Owen, Howyn Jones, D. Horman, G. Owen, L. Padmore, J. Hammond, V. Lloyd a P. Roberts yw'r lleill sydd wedi eu cynrychioli hyd yma.